

# CYLLIDAU GIG CYMRU 2004

Adroddiad gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru ac ar gael oddi wrth:

Y Llyfrfa Oriel
18-19 Y Stryd Fawr, Caerdydd,
CF10 1PT
Ffôn 029 2039 5548
Ffacs 029 2038 4347

Argraffwyd ar bapur Greencoat.
Defnyddir 80% ffeibr ail-gylchedig a 20% virgin TCF pulp o goedwigoedd cynaliadwy i gynhyrchu papur Greencoat.

DG Cyf: 4069VE

Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth i Gymru 1998.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

1 Ebrill 2004

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hollol annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n ardystio cyfrifon y Cynulliad a'i gyrff noddedig cyhoeddus cysylltiedig; ac mae ganddo awdurdod statudol i adrodd i'r Cynulliad ar y cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithioldeb sydd gan y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus noddedig wrth ddefnyddio eu adnoddau i gyflawni eu gweithrediadau.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru.

Roedd Ian Summers, Matthew Coe, Joanne Thomas a Phil Pugh yn nhîm astudio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Os am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru cysylltwch â:

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd
CF10 3DP
Ffôn: 029 2067 8500

e-bost: ian.summers@nao.gsi.gov.uk
gillian.body@nao.gsi.gov.uk
Cyfeiriad safle'r Wê: http://www.acc.cymru.gov.uk/dangoseg.htm

ISBN 1-90-421919-5

# CYLLIDAU GIG CYMRU 2004

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 1 Ebrill 2004

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol 1

Rhan 1

Cyflwyniad 4

- Cwmpas 4
- Sail yr Archwiliad 4
- Y Comisiwn Archwilio a rôl ei archwilwyr penodedig 4
- Gwaith yr archwilwyr penodedig 5
- Adroddiadau ac atgyfeiriadau 6
- Trefniadau archwilio yng Nghymru yn y dyfodol 6

Rhan 2

Sefyllfa ariannol a threfn reoli'r GIG yng Nghymru 7

- Cyflwyniad 7
- Trosolwg o ganlyniadau ariannol GIG Cymru, 2002-2003 7
- Sefyllfa ariannol yr awdurdodau iechyd ar adeg eu diddymu 8
- Perfformiad ariannol yr ymddiriedolaethau GIG 9
- Polisi a pherfformiad talu'r sector cyhoeddus 9
- Sefyllfa ariannol GIG Cymru 10






## Rhan 3


### Ailstrwythuro GIG Cymru 12

Cyflwyniad 12

Newidiadau mewn Deddfwriaeth 12

Adolygiad o Gostau Newid Strwythurol 14

Effaith adolygiadau o bwys o fewn y GIG 16


## Rhan 4


### Heriau sy'n wynebu GIG Cymru 18

Cyflwyniad 18

Rheolaeth Gorfforaethol 18

Materion sy'n deillio o'r Cyfrifon Creiddiol 19

Cronfa Risg Cymru 21

Y Fenter Cyllid Preifat o fewn GIG Cymru 22

Newyddion diweddaraf am dwyll yn y GIG 22

Rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrth geisio Atal Twyll 23


## Atodiadau


1. Datganiad o asedau a rhwymedigaethau net a drosglwyddwyd o awdurdodau iechyd ar 1 Ebrill 2003 25
2. Alldro 2003-2004 a ragwelir ar gyfer GIG Cymru 26
3. Perfformiad talu'r sector cyhoeddus 2001-2002 a 2002-2003 28


## Mynegai o Ffigurau


1. Cyfanswm gwarged/diffyg net cofnodedig GIG Cymru ar gyfer 1998-1999 i 2002-2003 7
2. Awdurdodau Iechyd yng Nghymru: Cymharu diffygion cronedig ar 31 Mawrth ar gyfer y blynyddoedd 1999 i 2003 8
3. Perfformiad talu cyflenwyr cymharol y GIG yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2000-2001 a 2002-2003 10


## Mynegai o Dablau



A Ymddiriedolaethau GIG sydd â phroblemau ariannol creiddiol yn 2002-2003 11

B Costau trosiannol rhaglen newid strwythurol GIG Cymru 15

C Cynllun Cyflogaeth Estynedig 15

D Crynodeb o'r Adolygiad o'r Datganiad o Reolaeth Fewnol 19

E Rhwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2003 20





# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

1 Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol ar gyllid GIG Cymru a materion cysylltiedig. Mae'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 ac mae'n ystyried cynnydd yr ailstrwythuro yn 2003.

2 Penododd y Comisiwn Archwilio archwilwyr y pum awdurdod iechyd a'u cyrff olynol, y dau ddeg dau o fyrddau iechyd lleol, yn ogystal â phenodi archwilwyr y 15 o ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Fi sy'n gyfrifol am archwilio y tri chyfrif cryno a baratowyd gan Adran GIG Cymru y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys deunydd a ddarparwyd gan y Comisiwn, ei archwilwyr penodedig, a Gwasanaeth Atal Twyll y GIG. Yr wyf yn ddiolchgar i'r sefydliadau hyn ac i Adran GIG Cymru am eu cymorth wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

## Materion a gwmpaswyd gan yr adroddiad hwn

3 Mae Rhan 1 o'r adroddiad hwn yn nodi sail fy archwiliad a gwaith y Comisiwn Archwilio a'i archwilwyr penodedig, ac mae hefyd yn dynodi'r trefniadau archwilio yn y dyfodol yng Nghymru. Yn rhan 2, cyflwynaf sylwadau ar berfformiad ariannol GIG Cymru yn 2002-2003 a nodaf y rhagolygon ariannol diweddaraf ar gyfer 2003-2004. Yn rhan 3, cyflwynaf y wybodaeth ddiweddaraf ar y bwriad i ailstrwythuro GIG Cymru ac ystyriaf y camau a gymerwyd gan GIG Cymru mewn ymateb i adroddiadau allanol. I gloi, yn rhan 4, amlygaf yr heriau allweddol eraill sy'n effeithio ar reolaeth gorfforaethol a'r mesurau a gymerwyd i fynd i'r afael â thwyll.

4 Ardystiais Gyfrifon Cryno GIG Cymru 2002-2003 ar 16 Rhagfyr 2003. Fel ag mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra cyfrifon cryno yr awdurdodau iechyd. Roedd y farn amodol hon yn adlewyrchu'r rhai a roddwyd gan yr archwilwyr penodedig mewn pedwar allan o'r pum awdurdod iechyd mewn perthynas â diffyg posibl mewn incwm o bresgripsiynau. Rhoddais farn ddiamod ar gyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG a'r arian a gedwir mewn ymddiriedaeth gan gyrff GIG.

## Prif Ganfyddiadau a Chasgliadau

### Sefyllfa ariannol a threfn reoli y GIG yng Nghymru


5 **Canlyniadau 2002-2003:** Y canlyniad ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg o £37 miliwn (o gymharu â £16 miliwn yn 2001-2002). Roedd hyn yn cynnwys diffyg net o £10.9 miliwn ymhlith ymddiriedolaethau'r GIG (£2.8 miliwn yn 2001-2002), a diffyg o £25.5 miliwn a gynhyrchwyd gan yr awdurdodau iechyd (£12.4 miliwn yn 2001-2002), a diffyg o £0.6 miliwn (£0.8 miliwn yn 2001-2002) o Wasanaethau Iechyd Deintyddol Cyffredinol y Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru.

6 **Sefyllfa ariannol awdurdodau iechyd ar adeg eu diddymu:** Cyfanswm diffyg net cronedig yr awdurdodau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003 oedd £60.2 miliwn. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 yw £58.4 miliwn. Yn erbyn targedau perfformiad ariannol, cofnododd yr archwilwyr penodedig fod pob un o'r pum awdurdod iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd statudol i aros o fewn eu terfynau ariannol. Dim ond Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a gyflawnodd ei darged ad-dalu costau.

7 **Polisi a pherfformiad talu'r sector cyhoeddus:** Mae'n ofynnol i bob corff GIG dalu anfonebau nad oes dadl yn eu cylch o fewn 30 diwrnod oni bai y cytunir ar delerau eraill gyda chyflenwyr. Yn ystod 2002-2003 talwyd 85.2 y cant o filiau yn ôl nifer o fewn y targed o 30 diwrnod, sy'n is na'r meincnod o 95 y cant, ond sy'n welliant er hynny ar 2001-2002 (83.1 y cant). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd amrywiaeth helaeth iawn mewn perfformiad talu ar draws cyrff GIG yn amrywio rhwng ychydig o dan 56.7 y cant ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg i 99 y cant ar gyfer Awdurdod Iechyd Bro Taf ar gyfer nifer y biliau a dalwyd o fewn 30 diwrnod.

8 Mae hyn yn parhau yn ddangosydd perfformiad pwysig i bob corff GIG yng Nghymru ac mae Adran GIG Cymru wedi penderfynu y bydd cydymffurfio yn ddyletswydd ariannol ffurfiol ar gyfer ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol o 1 Ebrill 2003 ymlaen.







9 **Sefyllfa ariannol GIG Cymru:** Yn 2002-2003, mynegodd yr archwilwyr penodedig bryderon am sefyllfa ariannol chwech ymddiriedolaeth GIG. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i gymunedau iechyd gynhyrchu Rhaglenni Newid Strategol ac Effeithlonrwydd er mwyn dileu diffygion erbyn Mawrth 2006. Mae'r Comisiwn Archwilio yn bryderus na chytunwyd hyd yma ar rai Rhaglenni Newid Strategol ac Effeithlonrwydd ar gyfer y byrddau iechyd lleol. Bydd ymddiriedolaethau GIG hefyd yn wynebu pwysau ariannol parhaus yn sgîl effaith y contract ymgynghorwyr newydd a'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, ailstrwythuro'r dyraniadau ariannu cenedlaethol a chynnydd yn y galw am wasanaethau gofal iechyd.

## Ailstrwythuro GIG Cymru

10 **Newidiadau mewn deddfwriaeth:** Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau i'r gwaith o ddarparu gofal iechyd gan gyrff GIG Cymru ac ar eu cyfer; a sefydlodd y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd er mwyn cyhoeddi data perfformiad cenedlaethol a chynnal adolygiadau o fathau arbennig o ofal iechyd. Cynhelir adolygiadau'r Cynulliad gan uned newydd, sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, o 1 Ebrill 2004 ymlaen, a bydd yn cwmpasu meysydd megis argaeledd gofal iechyd a mynediad iddo; ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal iechyd; y broses o reoli gofal iechyd yn ariannol neu brosesau rheoli eraill a darbodusrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth;a'r angen i ddiogelu a hybu hawliau a lles plant.

11 Ni fydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn dyfarnu graddau perfformiad (sêr) ar gyfer ymddiriedolaethau GIG Cymru, ond bydd yr adolygiadau yn gysylltiedig â'r "cerdyn sgôr cytbwys". Mae'r "cerdyn sgôr cytbwys" hwn yn elfen allweddol o'r Fframwaith Gwella Perfformiad sydd i'w fabwysiadu gan GIG Cymru i hwyluso datblygiad parhaus; asesu perfformiad yn y GIG; hwyluso'r broses o sefydlu proses feincnodi y gellir ei chymhwyso yn gyffredinol; ac ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch.

12 **Adolygiad o gostau newid strwythurol:** Erbyn hyn, cwblhawyd adolygiad manwl o'r modd y byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn ymarferol, o fewn eu cyllidebau diwygiedig ac heb roi'r broses o ddarparu gwasanaethau yn y fantol. Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wedi cynhyrchu strategaeth ariannol benodol, y cytunwyd arni gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2003, sy'n cynnig arian trosiannol o £0.5 miliwn yn 2003-2004 a chyllideb gytbwys o fewn amlen costau rhedeg y Gwasanaeth o 2004-2005 ymlaen. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes wedi cynhyrchu strategaeth ariannol interim, y cytunwyd arni gan y Cynulliad ym mis Mehefin 2003, a chadarnhaodd wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru na fydd angen arian trosiannol ar gyfer 2003-2004. Mae'r gofyniad arian trosiannol ar gyfer y dyfodol yn cael ei adolygu.

13 Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2002 na fyddai costau rhedeg y strwythur newydd yn fwy na'r costau o fewn y strwythur presennol o £71.1 miliwn ac y byddai costau trosiannol rhwng £12.5 miliwn a £15.5 miliwn. Dywedodd Adran GIG Cymru wrthyf eu bod yn disgwyl y bydd costau rhedeg y strwythur newydd yn parhau o fewn £71.1 miliwn.

14 Cyflwynwyd amcangyfrif diwygiedig o'r gyllideb, sef £10.9 miliwn i £14.1 miliwn ar gyfer costau trosiannol Rhaglen Newid Strwythurol GIG Cymru ar gyfer y cyfnod pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2005 i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym Mawrth 2003. Ac eithrio arian trosiannol ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes, mae'r rhagolwg diweddaraf sydd ar gael, sef £12.57 miliwn, o fewn yr ystod cyllideb gymeradwy.

15 **Effaith adolygiadau o bwys yn y GIG:** Cyhoeddwyd yr "Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru" gan Derek Wanless ym Mehefin 2003 ac amlygodd adroddiad tîm ymchwil Townsend "Targedu Iechyd Gwael" yr angen am newid sylweddol yn y modd y darperir iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, drwy wneud gwelliannau cynhyrchiant, mesurau iechyd cyhoeddus gwell a sicrhau gwerth am arian. Mae Adran GIG Cymru wedi ymateb drwy sefydlu Bwrdd Rhaglen i weithredu camau mewn ymateb i'r

Adolygiad, ac wedi sefydlu'r Bwrdd Strategaeth Gwybodaeth Ariannol i nodi fframwaith i wella ansawdd gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn strategol ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol gynhyrchu cynlluniau gweithredu 'Wanless' lleol erbyn Gwanwyn 2004. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd £30 miliwn o arian ymrwymedig yn 2004-2005 i ddatblygu ymateb y Cynulliad i'r Adolygiad, ac, yn ogystal, darparwyd £16 miliwn i roi'r fenter gwybodaeth "Hysbysu Gofal Iechyd" ar waith.

16 **Adolygiad o reolaethau mewnol yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes:** Comisiynodd Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru Atos KPMG Consulting i adolygu'r rheolaethau mewnol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth drafft a threfniadau sefydliadol yn y strwythur newydd ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2003 a daeth i'r casgliad bod y systemau rheolaeth mewnol yn ddigonol, er bod nifer o feysydd i'w gwella.

17 **Adolygiad o Brosesau Ad-drefnu:** Mynegodd yr archwilwyr penodedig bryderon hefyd am yr oedi o ran dadagregu balansau'r awdurdodau iechyd i gyrff olynol a ddylai fod wedi ei gwblhau pan ardystiwyd cyfrifon yr awdurdodau iechyd ym Medi 2003. Fodd bynnag, ni chwblhawyd y broses tan fis Ionawr 2004.

## Yr heriau sy'n wynebu GIG Cymru

18 **Cost nyrsys asiantaethau:** Mae'r gost o ddefnyddio staff nyrsio asiantaeth yng Nghymru yn dal i gynyddu'n sylweddol bob blwyddyn: yn ystod 2002-2003 roedd yn £18 miliwn (£15 miliwn yn 2001-2002, £10 miliwn yn 2000-2001, ac £8 miliwn yn 1999-2000). Mae hyn yn cynrychioli tua 1 y cant o gyfanswm bil y GIG. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio nifer o fentrau i leihau'r gwariant hwn a bydd hefyd yn pennu targedau er mwyn i'r ymddiriedolaethau leihau'r defnydd o nyrsys asiantaethau. Yn ogystal, datblygodd pob ymddiriedolaeth strategaethau Recriwtio a Chadw a weithredwyd yn 2003-2004.

19 **Cronfa Risg Cymru:** Yn ystod 2002-2003 cymerwyd nifer o gamau gan Gronfa Risg Cymru i atgyfnerthu eu trefniadau rheoli ariannol. Mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi bod o gymorth i sicrhau bod gwariant y Gronfa, sef £43 miliwn ar setlo 246 o achosion o hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol wedi eu talu o fewn ei chyllideb heb fod angen codi premiymau ychwanegol.

20 **Y newyddion diweddaraf am dwyll yn y GIG:** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cynulliad wedi parhau i weithio gyda Gwasanaeth Atal Twyll y GIG er mwyn parhau i ddatblygu strwythur effeithiol i atal twyll yng Nghymru. Amlygodd fy adroddiad diwethaf bod y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch wedi amcangyfrif bod y swm a gollwyd o ganlyniad i dwyll fferyllol yng Nghymru wedi lleihau o £15 miliwn i £7 miliwn ar gyfer 2001-2002. Maent wedi cwblhau ail ymarfer mesur ar y swm o incwm amcangyfrifiedig a gollwyd o ganlyniad i dwyll Cleifion a Chontractwyr Optegol yng Nghymru. Daeth yr ymarfer i'r casgliad bod lefel y twyll optegol yng Nghymru wedi lleihau o £1.2 miliwn y flwyddyn i £0.9 miliwn y flwyddyn.

21 Sefydlwyd yr Uned Ddilysu Ôl-Dalu yn 2001-2002 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i geisiadau i eithrio rhag ad-dalu costau presgripsiwn. Rhwng Hydref 2002 a Rhagfyr 2003, gwiriodd yr Uned tua 350,000 o sgriptiau ac adferodd gyfanswm incwm o £31,000. Mae £34,000 arall yn cael ei adfer drwy gosbau a gordaliadau.

22 Sefydlwyd Gwasanaeth Atal Twyll y GIG (Cymru) gan y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch ym mis Awst 2001. Ers hynny, maent wedi derbyn 37 o atgyferiadau o dwyll honedig, wedi adfer £233,402 ac maent ar hyn o bryd yn ymchwilio i achosion sy'n cynnwys gwerth tua £550,000. Maent hefyd wedi cynnal nifer o fentrau yn 2002-2003 i godi ymwybyddiaeth o dwyll a mesurau i atal twyll yn y GIG yng Nghymru.

23 Ar hyn o bryd, mae gan GIG Cymru ddau ddeg dau o Arbenigwyr Atal Twyll lleol (un deg naw yn 2001-2002) sy'n ymchwilio yn gyffredinol i achosion lle mae'r golled amcangyfrifiedig bosibl yn llai na £15,000 ac yn gweithredu fel rhwystr i dwyll posibl. Yn ystod y cyfnod hyd at Ragfyr 2003 roeddent wedi derbyn 150 o atgyfeiriadau achos ac wedi adfer gwerth £122,713.







# 1 Cyflwyniad

## Cwmpas

1.1 Dyma fy nhrydydd adroddiad blynyddol ar iechyd ariannol GIG Cymru. Mae'n gwneud sylwadau at berfformiad ariannol diweddar cyrff GIG yng Nghymru (Rhan 2), mae'n edrych ar faterion parhaus sy'n deillio o'r ailstrwythuro diweddar (Rhan 3) ac yn ystyried yr heriau ariannol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu (Rhan 4). Rhydd yr Atodiadau fwy o fanylion am yr etifeddiaeth ariannol i'r ymddiriedolaethau GIG a'r byrddau iechyd lleol newydd yn sgîl diddymu'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003, a gwybodaeth am berfformiad talu ar gyfer 2002-2003 a 2001-2002.

1.2 Yn ychwanegol at yr adroddiad hwn, cyflwynais dri adroddiad i'r Cynulliad yn ddiweddar ar astudiaethau gwerth am arian GIG Cymru:

- Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol (Mawrth 2003);
- Rheoli a Darparu Gwasanaethau Glanhau Ysbytai yng Nghymru (Mai 2003); a
- Rheoli Absenoldeb Salwch gan Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru (Ionawr 2004).

## Sail yr Archwiliad

1.3 O dan Adran 98(4) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, mae'n ofynnol i mi archwilio, ardystio a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar gyfrifon cryno'r GIG a baratowyd gan Adran GIG Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cyfrifon creiddiol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-2003 roedd y rhain yn cwmpasu canlyniadau ariannol y pum awdurdod iechyd, y Bwrdd Ymarfer Deintyddol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru), a'r 15 o ymddiriedolaethau GIG. Roedd fy archwiliad yn cynnwys asesiad o ddibynadwyedd y wybodaeth greiddiol a gynhwyswyd yng nghyfrifon archwiliedig y cyrff GIG unigol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru y dasg hon drwy adolygu gwaith yr archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio, craffu eu hadroddiadau a thrafod eu canfyddiadau gyda hwy. Archwiliodd fy staff y broses o grynhoi'r cyfrifon creiddiol unigol gan Adran GIG Cymru y Cynulliad hefyd.

1.4 Ardystiais Gyfrifon Cryno 2002-2003 ar 16 Ragfyr 2003. Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, rhoddais farn amodol ar gyfrifon cryno yr awdurdodau iechyd mewn perthynas â diffyg posibl yn lefel yr incwm o bresgripsiynau. Adlewyrchai'r farn amodol hon y farn a roddwyd gan yr archwilwyr penodedig i bedwar o'r pump o gyfrifon awdurdod iechyd creiddiol. Nodir manylion pellach isod ac yn fy adroddiad a gyhoeddwyd gyda'r cyfrifon cryno.

## Y Comisiwn Archwilio a rôl ei archwilwyr penodedig

1.5 Mae'r Comisiwn Archwilio yn hybu'r defnydd gorau o arian cyhoeddus drwy sicrhau stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus a helpu'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus i fod yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ofynnol i archwilwyr a benodir gan y Comisiwn asesu gwariant nid er mwyn cywirdeb yn unig ond hefyd er mwyn gweld p'un a gyflawnwyd gwerth am arian.

1.6 Ym mis Tachwedd 2002 integreiddwyd pob agwedd ar weithgareddau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru (gan gynnwys y cyflenwr archwilio mewnol a adwaenwyd yn flaenorol fel Archwiliad Dosbarth) yn un strwythur unedig - Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r "archwilwyr penodedig" mewnol yn parhau i gadw'r teitl Archwilydd Dosbarth.

1.7 Mae'n ofynnol i bob corff GIG gyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon, ynghyd ag adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifom ar gyfer y cronfeydd elusennol a ddelir mewn ymddiriedaeth, ac mae'n rhaid eu paratoi'n unol â'r *Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon* a gyhoeddwyd gan Adran GIG Cymru.

1.8 Ar gyfer 2002-2003, gwnaeth y Comisiwn Archwilio ddau benodiad newydd. Cynhaliodd PricewaterhouseCoopers archwiliad o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac archwiliwyd Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen gan archwilydd dosbarth mewnol. Parhaodd PricewaterhouseCoopers fel archwilydd penodedig ar gyfer Awdurdod Iechyd Bro Taf ac Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda, ac mae'r pedwar awdurdod iechyd a'r 13 o ymddiriedolaethau GIG eraill yn parhau i gael eu harchwilio'n fewnol.

1.9 Cyflwynwyd holl gyfrifon yr ymddiriedolaethau GIG i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r amserlen a bennwyd, sef 31 Gorffennaf 2003. Yn sgîl diddymu'r awdurdodau iechyd ar 31 Mawrth 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb ar gyfer cynhyrchu datganiadau ariannol 2002-2003 i Fwrdd Iechyd Lleol Powys. Ymestynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon er mwyn rhoi digon o amser i Fwrdd Iechyd Lleol Powys adolygu'r cyfrifon a'u mabwysiadu'n ffurfiol yn ei gyfarfod Bwrdd ym Medi 2003. Adolygaf effaith yr ailstrwythuro yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn.

## Gwaith yr archwiliwyr penodedig

1.10 Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig asesu'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol y mae cyrff iechyd unigol yn eu hwynebu. Maent yn rhoi barn ar p'un a yw'r cyfrifon blynyddol yn rhoi darlun teg a chywir ai peidio. Ar gyfer awdurdodau iechyd, maent hefyd yn rhoi barn ar reoleidd-dra'r incwm a'r gwariant. Ar gyfer bob corff GIG maent yn adolygu p'un a yw Datganiad y Cyfarwyddwyr ar Reolaeth Fewnol yn cydymffurfio â Safonau Rheoli Risg Cymru a'r safonau rheolaeth gofynnol a gyhoeddwyd gan Adran GIG Cymru. Yn olaf, mae'r archwilwyr penodedig hefyd yn paratoi llythyr archwilio blynyddol ar gyfer bob sefydliad yn crynhoi'r materion allweddol at sylw bwrdd cyfarwyddwyr y corff ac adroddiadau manwl a chyflwyniadau ar faterion penodol a phrosiectau yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

1.11 Roedd pob barn archwilio ar gyfrifon ymddiriedolaethau GIG 2002-03 yn ddiamod. Fodd bynnag, roedd yr archwilwyr penodedig wedi cynnwys paragraff ansicrwydd sylfaenol mewn perthynas â thair ymddiriedolaeth: Sir Benfro a Derwen, Ceredigion a'r Canolbarth a Sir Gaerfyrddin. Roedd hyn yn amlygu pryderon yr archwilwyr am allu cyrff i barhau i gyflwyno eu darpariaeth gwasanaeth bresennol o gofio lefelau'r arian sy'n debygol o gael ei ryddhau yn ystod y blynyddoedd i ddod. Cyfeirir at y cysyniad hwn fel 'iechyd ariannol'. Ymhelaethaf ar y mater hwn yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn.

1.12 Ar gyfer 2002-2003 (y cyfnod cofnodi olaf ar gyfer yr awdurdodau iechyd), archwilwyr penodedig Awdurdodau Iechyd Dyfed Powys, Bro Taf, Gwent ac Iechyd Morgannwg farn amodol ar reoleidd-dra'r cyfrifon oherwydd yr ansicrwydd parhaus ynghylch pa mor gyflawn oedd yr incwm o bresgripsiynau. Roedd yr archwilwyr yn poeni o hyd na sefydlwyd systemau digonol i sicrhau bod gwiriadau gweinyddu priodol ar waith a bod digon o gamau yn cael eu cymryd i adfer arian a oedd yn briodol ddyledus gan gleifion. Dim ond Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru dderbyniodd farn ddiamod ar reoleidd-dra ei gyfrifon ar y sail eu bod unwaith eto wedi sicrhau trefniadau priodol yn ystod y flwyddyn ariannol i nodi, monitro ac atal colledion incwm o bresgripsiynau. Yn ogystal, roedd ganddynt weithdrefnau ar waith i fynd ar drywydd incwm a oedd yn ddyledus ond heb ei gasglu oherwydd eithriadau a hawliwyd yn ffug. Bydd archwilwyr penodedig y byrddau iechyd lleol newydd yn parhau i fonitro'r mater hwn.

## Adroddiadau ac atgyfeiriadau

1.13 Fel rhan o'u gwaith, mae archwilwyr penodedig yn ystyried cyfreithlondeb y camau a gymerwyd gan gyrff GIG. Caiff y rhan fwyaf o faterion sy'n codi eu datrys drwy drafod ag uwch reolwyr. Yn achlysurol, efallai y bydd archwilwyr penodedig yn penderfynu ei bod er budd y cyhoedd i wneud atgyfeiriad i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau neu atgyfeiriadau o'r fath yn 2002-2003. Mae dyletswydd ar archwilwyr hefyd i gyfeirio mater i'r Cynulliad Cenedlaethol os bydd ganddynt le i gredu bod corff GIG wedi gwneud penderfyniad sy'n cynnwys neu a allai gynnwys gwariant anghyfreithlon. Unwaith eto, ni wnaed atgyfeiriadau o'r fath yn 2002-2003.

1.14 Mae'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol, sydd â chylch gorchwyl sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yn gyfystyr ag awdurdod iechyd arbennig. Rhoddodd archwilwyr y Bwrdd, PricewaterhouseCoopers, a benodir hefyd gan y Comisiwn Archwilio, farn amodol unwaith eto ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2002-2003 ar y sail y gallai absenoldeb rheolaethau arwain at wneud taliadau amhriodol o bosibl, er enghraifft, drwy gamgymeriad gweinyddol, camddeall rheoliadau, gwaith amhriodol neu waith o ansawdd gwael a lladrata bwriadol. Rhoddaf sylwadau ar gynnydd Gwasanaeth Atal Twyll y GIG wrth archwilio gwiriadau dilysu ar hawl cleifion i gael eu heithrio rhag gorfod talu am bresgripsiynau yng Nghymru a Lloegr yn Rhan 4 o'r adroddiad hwn. Bydd y Bwrdd yn cael ei ddiddymu o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003. Disgwylir y bydd llawer o'i swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i awdurdod iechyd arbennig trawsffiniol newydd.

## Trefniadau archwilio yng Nghymru yn y dyfodol

1.15 O dan y Mesur Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, bydd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i gyflogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru er mwyn ffurfio Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus. Yn ôl y Mesur yr Archwilydd Cyffredinol fydd archwilydd asiantaeth statudol bob corff GIG yng Nghymru ac y dylai cyfrifon archwiliedig y cyrff hynny gael eu gosod gerbron y Cynulliad. Yn ôl y Mesur hefyd, dylai'r Archwilydd Cyffredinol gydweithredu â chyrff archwilio ac arolygu eraill sydd â chylch gorchwyl GIG megis Arolygiaeth Gofal-Iechyd newydd Cymru a'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd. Croesawaf y datblygiadau hyn gan y byddant yn darparu trefn atebolrwydd wedi ei ffocysu'n well ar gyfer y GIG yng Nghymru yn ogystal â chynnig trefniadau archwilio ac arolygu gwell a mwy cyfannol yn gyffredinol.

# Sefyllfa ariannol a threfn reoli'r GIG yng Nghymru 2

## Cyflwyniad


2.1 Mae'r rhan hon o'm hadroddiad yn archwilio'r materion allweddol a ddylanwadodd ar berfformiad ariannol GIG Cymru yn ystod 2002-2003 a'r datblygiadau mewn strategaeth rheoli sydd wedi effeithio ar y sefyllfa ariannol yn y dyfodol sy'n crynhoi:

- trosolwg o ganlyniadau ariannol GIG Cymru ar gyfer 2002 2003 (paragraffau 2.2 i 2.5);
- sefyllfa ariannol yr awdurdodau iechyd ar adeg eu diddymu (paragraffau 2.6 i 2.7);
- perfformiad ariannol yr ymddiriedolaethau GIG (paragraffau 2.8 i 2.12);
- polisi a pherfformiad talu'r sector cyhoeddus (paragraffau 2.13 i 2.16); a
- sefyllfa ariannol GIG Cymru (paragraffau 2.17 i 2.19).

## Trosolwg o ganlyniadau ariannol GIG Cymru, 2002-2003

2.2 Cyfanswm y diffyg net ar gyfer 2002-2003 oedd £37 miliwn (o gymharu â £16 miliwn yn 2001-2002), fel y dangosir yn **Ffigur 1**. Roedd hyn yn cynnwys diffyg net o £10.9 miliwn ymysg yr ymddiriedolaethau GIG (£2.8 miliwn yn 2001-2002), diffyg o £25.5 miliwn a gynhyrchwyd gan yr awdurdodau iechyd (£12.4 miliwn yn 2001-2002), a diffyg o £0.6 miliwn (£0.8 miliwn yn 2001-2002) o Wasanaethau Iechyd Deintyddol Cyffredinol y Bwrdd Ymarfer Deintyddol yng Nghymru. Y llynedd, roedd Adran GIG Cymru wedi rhagweld diffyg gweithredol rhwng £39.6 miliwn a £44.1 miliwn, heb gynnwys dileu benthyciadau Dyfed Powys.

1 Cyfanswm gwarged/diffyg net cofnodedig GIG Cymru ar gyfer 1998-1999 i 2002-2003




*Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno GIG (Cymru)*

2.3 Ar 23 Ionawr 2002 hysbysodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y GIG o fwriad y Cynulliad i ddiddymu benthyciadau a gymerwyd allan cyn 31 Mawrth 2001. Roedd angen i'r ymddiriedolaethau GIG ddangos dwy flynedd olynol o falans ariannol er mwyn bod yn gymwys i ddileu eu benthyciadau, a oedd yn gyfanswm o £17.5 miliwn. Ni ddilewyd unrhyw fenthyciadau i ymddiriedolaethau yn 2002-2003. Bydd benthyciadau a roddwyd ers 1af Ebrill 2001, sef cyfanswm o £7 miliwn ar gyfer awdurdodau iechyd a £13.7 miliwn ar gyfer ymddiriedolaethau GIG, yn ad-daladwy yn unol â chynlluniau ariannol a gymeradwywyd gan yr Adran. Mae benthyciadau i'r awdurdodau iechyd blaenorol yn ad-daladwy gan y byrddau iechyd lleol sy'n eu holynu.

2.4 Nid gwaith syml yw cymharu gwargedau/diffygion net rhwng blynyddoedd. Yn 2002-2003 dilewyd gwerth £23.7 miliwn o fenthyciadau i Awdurdod Iechyd Dyfed Powys. Yn 2001-2002 mae'r diffyg cyffredinol yn cynnwys cymorth strategol gwerth £11.2 miliwn - heb hynny £27.2 miliwn fyddai cyfanswm y diffyg net. Yn ogystal, ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2001-2002 mewn ymateb i arweiniad y Cynulliad ar ymddeoliadau cynnar cyn 6 Mawrth 1995 er mwyn cydymffurfio â FRS 12. Addaswyd y darpariaethau a'r arian wrth gefn ar gyfer £6.8 miliwn mewn perthynas â'r awdurdodau iechyd a £12.2 miliwn ar gyfer yr ymddiriedolaethau.


2.5 Diffyg incwm a gwariant net cronedig GIG Cymru ar 31 Mawrth 2003 oedd £100.6 miliwn (£68.1 miliwn ar 31 Mawrth 2002). Mae'n amlwg mai'r flaenoriaeth i'r GIG yng Nghymru yw gwyrdroi'r sefyllfa hon ac adfer balans ariannol. Mae'r Gweinidog a Chyfarwyddwr GIG Cymru yn cydnabod bod angen ymdrin â'r diwylliant diffyg. Mae mesurau a anelir at adfer disgyblaeth ariannol yn cael eu gweithredu, wedi eu cynllunio i sicrhau bod y gwasanaeth yn ôl mewn balans erbyn 2006 gan ad-dalu unrhyw fenthyciadau pellach erbyn 2009.

## Sefyllfa ariannol yr awdurdodau iechyd ar adeg eu diddymu

2.6 Rhoddir manylion am etifeddiaeth ariannol y byrddau iechyd lleol yn sgîl diddymu'r awdurdodau iechyd yn Atodiad 1 sy'n rhoi manylion yr asedau a'r rhwymedigaethau net a drosglwyddwyd o bob awdurdod iechyd. Mae'r ffigurau hyn yn ddarostyngedig i'w harchwilio gan y Comisiwn Archwilio. £60.2 miliwn oedd cyfanswm diffyg net cronedig yr awdurdodau iechyd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2003 fel y dangosir yn **Ffigur 2**. £58.4 miliwn wedi ei ailddatgan yw'r ffigur cyfatebol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002.

2.7 Nodir dyletswydd ariannol statudol yr awdurdodau iechyd yn adran 97A Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. O ran perfformiad yn erbyn targedau ariannol, cofnododd yr archwilwyr penodedig bod y pum awdurdod iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd statudol i aros o fewn eu terfynau arian parod. Dim ond Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru a gyflawnodd ei darged ad-dalu costau. £12.4 miliwn oedd cyfanswm diffyg net cronedig y Bwrdd Ymarfer Deintyddol ar 31 Mawrth 2003 (31 Mawrth 2002: £11.8 miliwn).

**2** Awdurdodau Iechyd yng Nghymru: Cymharu diffygion cronedig ar 31 Mawrth ar gyfer y blynyddoedd 1999 i 2003




*Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) a chyfrifon yr Awdurdod Iechyd creiddiol ar gyfer 1998 1999, 1999-2000, 2000-2001, 2001-2002 a 2002-2003*

## Perfformiad ariannol yr ymddiriedolaethau GIG

2.8 Cofnododd cyfrifon cryno 2002-2003 yr ymddiriedolaethau GIG ddiffyg o £10.9 miliwn ar gyfer y flwyddyn gyda £28 miliwn o ddiffyg cronedig ar 31 Mawrth 2003 (31 Mawrth 2002: £17.4 miliwn wedi ei ailddatgan). Dylid nodi bod Arian Cymorth Strategol gwerth £11.2 miliwn wedi gwella'r sefyllfa yn ystod 2001-2002 - heb y diffyg hwn, £28.6 miliwn fyddai'r diffyg wedi bod ar yr ymddiriedolaethau GIG.

2.9 Mae'n ofyniad statudol i'r ymddiriedolaethau GIG ad-dalu costau a gaiff ei fesur dros gyfnod treigl o dair blynedd ac y gellir ei ymestyn i bum mlynedd drwy gytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd yr archwilwyr penodedig wrthyf bod naw ymddiriedolaeth wedi cyflawni eu dyletswydd ad-dalu costau a bod un ymddiriedolaeth wedi methu â chyflawni ei dyletswydd ad-dalu costau yn ystod y flwyddyn ariannol 2002-2003. Nid oedd yn ofynnol i'r pum ymddiriedolaeth a oedd yn weddill gofnodi eu targed ad-dalu costau yn ffurfiol yn 2002-2003 ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cynulliad am ddiffygion a gyllidebwyd. Dychwelodd saith ymddiriedolaeth warged mewn blwyddyn. Arhosodd bob ymddiriedolaeth GIG o fewn eu Terfyn Cyllid Allanol.

2.10 Unwaith eto, ni chyrhaeddodd Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ei tharged ariannol statudol ac ni cheisiodd gymeradwyaeth y Cynulliad am estyniad i'r amserlen ad-dalu costau. Gofynnodd Adran GIG Cymru i ymgynghorwyr trydydd parti, Teamwork, gwblhau adolygiad annibynnol o'r gymuned iechyd. Dywedodd Adran GIG Cymru wrthyf bod Cynllun Newid Strategol ac Effeithlonrwydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo bellach sy'n ymdrin â'r diffyg creiddiol o £4.5m.

2.11 Derbyniwyd y sefyllfaoedd diffyg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y sail bod ymddiriedolaethau naill ai wedi datblygu cynlluniau i adfer balans ariannol, neu'n gweithio arnynt ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'u trefniadau gydag ymddiriedolaethau GIG unigol, a oedd o bosibl yn diystyru gofyniad statudol ymddiriedolaethau i ad-dalu costau, a'r dehongliad o'r cyfnod ad-dalu costau 'treigl', yn arbennig ar gyfer yr ymddiriedolaethau hynny a oedd newydd ddod allan o estyniad yn y cyfnod ad-dalu costau yn sgîl cytuno ar Gynllun Adfer Ariannol.

2.12 Er mwyn datrys hyn, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, lle bynnag yr oedd ymddiriedolaethau wedi cwblhau cyfnod o adfer ariannol yn 2001-2002, y byddai cyfnod ad-dalu costau newydd yn cychwyn yn 2002-2003 heb ofyniad ffurfiol i gofnodi'r targed ad-dalu costau. Felly, nid oedd yn ofynnol i'r pedair ymddiriedolaeth ganlynol gofnodi dyletswydd ad-dalu costau yn 2002-2003: Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion; Ymddiriedolaeth GIG Powys; Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru. Yn ogystal, roedd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro newydd gwblhau ei thrydedd blwyddyn o weithredu yn 2002-2003 ac nid oedd gofyniad i gofnodi ad-dalu costau ar y sail bod ei gynllun adfer wedi ei ymestyn i'r flwyddyn 2008-2009. Dylid nodi hefyd mai 2002-003 oedd blwyddyn weithredu olaf Ymddiriedolaeth GIG Powys. Trosglwyddwyd gweithrediadau'r Ymddiriedolaeth i Fwrdd Iechyd Lleol Powys ar 1 Ebrill 2003. Yng ngoleuni'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer 2002-2003, dywedodd y Comisiwn Archwilio wrthyf y bydd yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru egluro'r arweiniad ar ad-dalu costau.


## Polisi a pherfformiad talu'r sector cyhoeddus

2.13 Mae'n ofynnol i bob corff GIG gydymffurfio â chod taliadau cyflym y CBI a rheolau cyfrifo'r Llywodraeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i dalu pob anfoneb nad oes dadl yn ei chylch o fewn 30 diwrnod, oni bai y cytunir ar delerau eraill gyda'r cyflenwyr.

2.14 Mae **Ffigur 3** yn dangos y gwelliant cymharol mewn perfformiad talu cyflenwyr ar sail Cymru gyfan ers y tair blynedd diwethaf o ran nifer y biliau a dalwyd ond dirywiad bach o ran gwerth yn ystod 2002-2003.

2.15 Datgelir perfformiad talu bob awdurdod iechyd ac ymddiriedolaeth GIG yn 2002-2003 ynAtodiad 3. Unwaith eto, tynnodd yr archwilwyr penodedig sylw at yr amrywiaeth helaeth o ran perfformiad talu ar draws cyrff GIG yn ystod 2002-2003, a amrywiai o ychydig llai na 56.7% ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg i 99% ar gyfer Awdurdod Iechyd Bro Taf ar

3 Perfformiad talu cyflenwyr cymharol y GIG yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd 2000-2001 a 2002-2003




*Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) ar gyfer 2000-2001, 2001-2002 a 2002-2003*

gyfer nifer y biliau a dalwyd o fewn 30 diwrnod. Fodd bynnag ni chofnodwyd unrhyw log a oedd yn daladwy yn y cyfrifon GIG creiddiol (2001-2002: dim).

2.16 Mae cyfartaledd o 85.2% o filiau a dalwyd o fewn y targed (2001-2002: 83.1%) yn sylweddol brin o'r meincnod 95% ar gyfer 2003-2004. Yn y Rhagair i'r cyfrifon cryno nododd Cyfarwyddwr GIG Cymru bod y broses o weithredu system ariannol newydd yn 2002-2003 wedi arwain at berfformiad gwael mewn rhai ymddiriedolaethau ar ddechrau'r flwyddyn, ond gwelwyd tuedd gyffredinol o wella yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn ystod 2003-2004 bydd gofyn i ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol dalu 95% o anfonebau nad oes dadl yn eu cylch o fewn 30 diwrnod fel targed ariannol ffurfiol a disgwylir cydymffurfio erbyn mis Mawrth 2004. Lle na chyflawnir hyn, bydd angen cynlluniau gweithredu ffurfiol sy'n manylu sut y caiff perfformiad ei wella. Lledaenwyd arfer gorau ar draws y GIG a chyflwynwyd rheolaethau diffiniadol fwy llym.

## Sefyllfa ariannol GIG Cymru

2.17 Yn ogystal â rhoi barn ar y cyfrifon, mae'n ofynnol i'r archwilwyr penodedig roi barn ar sefyllfa ariannol bob corff GIG. Wrth wneud hynny, maent yn ystyried:

- perfformiad ariannol yn ystod y flwyddyn;
- y gallu i ddiwallu rhwymedigaethau statudol a rhwymedigaethau ariannol eraill - rhai gwirioneddol ac wrth gefn;
- datblygiadau hysbys, boed ar hyn o bryd neu yn y dyfodol rhagweladwy, a allai effeithio ar sefyllfa ariannol.

Unwaith eto, roedd sefyllfa ariannol GIG Cymru yn achosi cryn bryder i'r archwilwyr penodedig. Mae'r economi iechyd yng Nghymru yn wynebu problemau ariannol fel y dynodwyd gan y broses Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol. Arweiniodd y broses hon at ddiffyg rhagweledig o £20.7 miliwn ar gyfer 2003-2004 fel y manylwyd yn Atodiad 2. Yr ystod a ragwelir yw rhwng £17 miliwn a £24 miliwn. Gofynnwyd i gymunedau iechyd ddatblygu Rhaglenni Newid Strategol ac Effeithlonrwydd er mwyn dileu'r diffygion

ariannol erbyn mis Mawrth 2006, drwy gyfuniad o arbedion ariannol a benthyciadau a fydd yn ad-daladwy erbyn mis Mawrth 2009.

2.18 Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn bryderus na chytunwyd ar rai Rhaglenni Newid Strategol ac Effeithlonrwydd hyd yma rhwng cymunedau iechyd lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu ymagwedd cerdyn sgôr cytbwys tuag at reoli perfformiad ar gyfer 2004-2005.

2.19 Mae'r archwilwyr penodedig hefyd wedi mynegi cryn bryder am sefyllfa ariannol ymddiriedolaethau unigol. Mae **Tabl A** yn crynhoi canlyniadau eu hadolygiadau sy'n nodi'r problemau ariannol creiddiol.

Bydd ymddiriedolaethau GIG yn wynebu pwysau ariannol parhaus yn sgîl effaith y contract ymgynghorwyr newydd a'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, ailstrwythuro'r dyraniadau arian cenedlaethol a chynnydd yn y galw am wasanaethau gofal iechyd.

## A Ymddiriedolaethau GIG sydd â phroblemau ariannol creiddiol yn 2002-2003

| Ymddiriedolaeth GIG | Sefyllfa ariannol |
|---|---|
| **Caerdydd a'r Fro** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £3.4m yn 2002-2003.<br><br>Cytunwyd ar gynllun adfer pum mlynedd newydd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2003 a disgwylir iddo ddychwelyd yr Ymddiriedolaeth i warged yn 2006-2007. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd sefyllfa ad-dalu costau yn 2008-2009. Her allweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth yw darparu rhaglen gwella costau o tua £23m yn ystod y cyfnod hwn.<br><br>Benthycodd Llywodraeth y Cynulliad £10.1m i'r Ymddiriedolaeth yn 2002-2003. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 oedd £13.6m. |
| **Sir Gaerfyrddin** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £4.5m yn 2002-2003.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adfer balans gwasanaeth ac ariannol erbyn 2006 tra hefyd yn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd yn 2002-2003 ac sy'n dderbyniadwy yn 2003-2004 erbyn 2008-09.<br><br>Benthycodd Llywodraeth y Cynulliad £6.0m i'r Ymddiriedolaeth yn 2002-2003. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 oedd £9.2m. |
| **Ceredigion a Chanolbarth Cymru** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £0.8m yn 2002-2003.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adfer balans gwasanaeth ac ariannol erbyn 2006 tra hefyd yn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd yn 2002-2003 ac sy'n dderbyniadwy yn 2003-2004 erbyn 2008-09.<br><br>Benthycodd Llywodraeth y Cynulliad £0.9m i'r Ymddiriedolaeth yn 2002-2003. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 oedd £1.4m. |
| **Sir Benfro a Derwen** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £2.4m yn 2002-2003 a oedd yn cynnwys trosglwyddiad cyfalaf i refeniw o £2.6m.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adfer balans gwasanaeth ac ariannol erbyn 2006 tra hefyd yn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd yn 2002-2003 ac sy'n dderbyniadwy yn 2003-2004 erbyn 2008-09.<br><br>Benthycodd Llywodraeth y Cynulliad £2.4m i'r Ymddiriedolaeth yn 2002-2003. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 oedd £5.2m. |
| **Gofal Iechyd Powys** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £0.7m yn 2002-2003.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol (y sefydliad olynol) yn bwriadu adfer balans gwasanaeth ac ariannol erbyn 2006 tra hefyd yn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a dderbyniwyd yn 2002-2003 ac sy'n dderbyniadwy yn 2003-2004 erbyn 2008-09.<br><br>Benthycodd Llywodraeth y Cynulliad £0.4m i'r Ymddiriedolaeth yn 2002-2003. Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 oedd £0.4m. |
| **Gogledd Ddwyrain Cymru** | Cofnododd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg o £0.5m yn 2002-2003.<br><br>Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cofnodi diffyg mae'n gwneud cynnydd yn erbyn ei sefyllfa diffyg cymeradwy. Disgwylir i'r Ymddiriedolaeth gyrraedd sefyllfa ariannol gytbwys mewn blwyddyn erbyn 31 Mawrth 2004 fel y nodir yn ei Gynllun Rheoli Diffyg.<br><br>Cyfanswm y benthyciadau dyledus ar 31 Mawrth 2003 yw £0.1m. |

*Ffynhonnell: Comisiwn Archwilio yng Nghymru*

# 3 Ailstrwythuro GIG Cymru

## Cyflwyniad

3.1 Mae'r broses o ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru wedi arwain at newidiadau sylweddol. Diddymwyd y pum awdurdod iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys ar 31 Mawrth 2003 ac fe'u disodlwyd gan 22 o fyrddau iechyd lleol. Yn ogystal, sefydlwyd nifer o gyrff i ddarparu cymorth ychwanegol gan gynnwys:

- **Canolfan Gwasanaethau Busnes** - sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys cymorth ariannol, contractwyr, adnoddau dynol a TG i fyrddau iechyd lleol;
- **Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru** - sy'n darparu cyfleusterau Iechyd Cyhoeddus arbenigol i gynorthwyo'r byrddau iechyd lleol; a
- **Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol)** - un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu arweiniad, cyngor a chymorth ymrwymedig ar gomisiynu gwasanaethau eilaidd a rhanbarthol arbenigol.

Sefydlwyd nifer o fforymau a gweithgorau hefyd i fynd i'r afael â materion penodol yn cynnwys:

- **Bwrdd Rhaglen Wanless ac Is-grŵp Adnoddau** - er mwyn datblygu argymhellion "Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru" - wedi ei gynghori gan Derek Wanless. Sefydlwyd yr Is-grŵp Adnoddau er mwyn archwilio'r cyfleoedd a'r systemau ar gyfer gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn darparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn effeithiol;
- **Bwrdd Strategaeth Gwybodaeth Ariannol a'r Bwrdd Cyllidebu Rhaglen** - er mwyn ystyried effaith adroddiadau asiantaeth allweddol ar bob lefel o'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad Wanless ac adroddiad grŵp Townsend 'Targedu Iechyd Gwael'' a
- **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan -** sy'n darparu cyngor ar y broses o reoli meddyginiaethau yn strategol a rhagnodi i'r Cynulliad.

## Newidiadau mewn Deddfwriaeth

3.2 Rhoddodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 swyddogaethau arolygu gofal iechyd newydd i'r Cynulliad. Sefydlodd hefyd y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd - sy'n gorff a fydd yn gweithredu ledled Lloegr a Chymru.

3.3 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad gynnal adolygiadau ac ymchwilio i ddarpariaeth gofal iechyd gan gyrff GIG yng Nghymru ac ar eu rhan. Bwriad y Cynulliad yw ymgymryd â'r swyddogaethau hyn drwy uned newydd, sydd i'w sefydlu 1 Ebrill 2004 o'r enw Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

3.4 Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad ystyried nifer o faterion gan gynnwys argaeledd gofal iechyd a mynediad iddo; ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal iechyd; rheolaeth ariannol neu reolaeth arall o'r gofal iechyd a darbodusrwydd ac effeithiolrwydd ei ddarpariaeth; a'r angen i ddiogelu a hybu hawliau a lles plant.

3.5 Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cydweithio'n agos ag Arolygiaethau eraill y Cynulliad - Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Cynulliad i adolygu gofal iechyd a ddarperir ar gyfer cyrff GIG yng Nghymru a bydd, i bob pwrpas, yn galluogi'r Cynulliad i adolygu gofal iechyd a gomisiynir gan GIG Cymru gan y GIG yn Lloegr. Yn yr un modd, mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth gyfatebol i'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Iechyd, sef adolygu gofal iechyd a gomisiynwyd gan y GIG yn Lloegr ac a ddarperir gan GIG Cymru.

3.6 Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthyf nad yw'n bwriadu cyflwyno graddau sêr fel Lloegr a'i bod wedi penderfynu ar ymagwedd sydd yn rhoi darlun mwy cyflawn o berfformiad. Eu bwriad yw sefydlu fframwaith perfformiad sy'n cymryd golwg gyfannol ar wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau GIG i'w cleifion a'r cyhoedd, a bydd yn darparu:

- ymagwedd strwythuredig tuag at ganolbwyntio ar amcanion strategol a pherfformiad blynyddol sefydliad;
- system ar gyfer cofnodi perfformiad y sefydliad yn gywir;
- ffordd o sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau;
- ffordd o sicrhau y rhennir cyfrifoldeb am wella perfformiad;
- ffordd o ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, diogelwch, gweithgarwch a chostau; a
- "ffordd deg" o wneud penderfyniadau a dosbarthu canmoliaeth yn wrthrychol.

3.7 Bydd gan y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd swyddogaethau yng Nghymru a Lloegr - cyhoeddi data perfformiad cenedlaethol; cynnal adolygiadau o fathau arbennig o ofal iechyd (er enghraifft, adolygiadau cenedlaethol ar ofal iechyd canser); adolygu'r gofal iechyd a ddarperir gan gyrff GIG yng Nghymru ar gyfer cyrff GIG yn Lloegr; paratoi adroddiad blynyddol ar y ffordd yr arferodd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol ar ei adolygiad o ddarparu gofal iechyd gan gyrff GIG ac ar eu rhan yng Nghymru a Lloegr. Rhaid iddo hefyd roi gwybod i'r Cynulliad os bydd o'r farn bod diffygion sylweddol mewn perthynas â darparu gofal iechyd gan gorff GIG yng Nghymru neu ar ei gyfer.

3.8 Mae manteision disgwyliedig y drefn arolygu newydd ar gyfer cleifion GIG yng Nghymru yn cynnwys:

- ffocws cryf ar flaenoriaethau iechyd yng Nghymru wrth gynnal adolygiadau yn lleol yng Nghymru;
- cydweithio cryfach rhwng yr amrywiol arolygiaethau, cyrff archwilio a rhanddeiliaid eraill er mwyn nodi bylchau a/neu ddyblygu darpariaeth gwasanaethau;
- adolygiadau sy'n ystyried strwythur sefydliadol GIG Cymru a'r ffordd y comisiynir gofal iechyd yng Nghymru; a
- gallu Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu'r graddau angenrheidiol o gadernid, tryloywder a thrylwyredd a ddisgwylir ar hyn o bryd.

3.9 Os caiff ei ddeddfu, bydd y Mesur Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn creu un corff archwilio i Gymru o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r enw "Swyddfa Archwilio Cymru". Bydd y corff archwilio newydd yn ymgymryd â'r swyddogaethau a gyflawnir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a chan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, a throsglwyddir staff y ddau sefydliad i gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Y dybiaeth ymarferol yw y daw'r trefniadau newydd i rym ar 1 Ebrill 2005.

3.10 Bydd y ddeddfwriaeth yn penodi'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol pob corff GIG yng Nghymru gyda dyletswyddau statudol a fydd yn debyg i'r rhai sydd gan yr archwilwyr a benodir gan y Comisiwn Archwilio ar hyn o bryd. Bydd pwerau archwilio gwerth am arian presennol yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau ac yn cael eu hehangu er mwyn adlewyrchu pwerau presennol y Comisiwn Archwilio.

3.11 Yn Lloegr, mae rôl y Comisiwn Archwilio o ran ymgymryd ag astudiaethau gwerth am arian yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd newydd. Yng Nghymru, bydd y Comisiwn Archwilio yn cadw'r pwerau hyn tan 2005 pan gânt eu trosglwyddo i'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Mesur Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) yn cynnwys cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydweithredu wrth gyflawni eu priod swyddogaethau.

3.12 Croesawaf y newidiadau arfaethedig sydd â'r potensial i atgyfnerthu'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer y GIG yng Nghymru a chreu proses archwilio ac arolygu fwy cyfannol.

## Adolygiad o Gostau Newid Strwythurol

3.13 Yn fy adroddiad Cyllidebau GIG Cymru 2003, argymhellais fod angen cynnal adolygiad mwy manwl o'r modd y byddai'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn ymarferol, o fewn eu cyllidebau diwygiedig ac heb roi'r broses o ddarparu gwasanaethau yn y fantol. Bellach, cwblhawyd yr adolygiad hwn gan Adran GIG Cymru. Mae Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wedi cynhyrchu strategaeth ariannol benodedig, y cytunwyd arni gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2003, sy'n cynnig arian trosiannol gwerth £0.5 miliwn yn 2003-2004 a chyllideb gytbwys o fewn amlen costau rhedeg y Gwasanaeth o 2004-2005 ymlaen. Cynhyrchodd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes strategaeth ariannol interim y cytunodd y Cynulliad arni ym mis Mehefin 2003. Yn dilyn adolygiad ariannol canol blwyddyn, cadarnhaodd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru na fydd angen arian trosiannol ar gyfer 2003-2004. Mae'r angen am arian trosiannol ar gyfer y dyfodol yn cael ei adolygu.

3.14 Sefydlwyd Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ar 1 Ebrill 2003 ac mae'n rhan ffurfiol o Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Ar sail yr arian a etifeddodd gan yr awdurdodau iechyd, roedd yn ofynnol i'r sefydliad wneud arbedion o 10.3% er mwyn ei alluogi i weithredu o fewn ei ddyraniad diwygiedig ar gyfer 2003-2004, sef £13.9 miliwn. Roedd creu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru hefyd yn cynnwys trosglwyddo labordai'r Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru a'r Ganolfan Goruchwylio Clefydau Hysbysadwy yng Nghymru o Loegr. Trosglwyddwyd arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a ddarparwyd yn flaenorol i'r Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus gwerth £4.9 miliwn yn 2003-2004 i Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

3.15 Dywedodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2002 na fyddai costau rhedeg y strwythur newydd yn fwy na rhai y strwythur presennol, sef £71.1 miliwn ac y byddai costau trosiannol yn amrywio rhwng £12.5 miliwn a £15.5 miliwn. Dywedodd Adran GIG Cymru wrthyf eu bod yn disgwyl i gostau rhedeg y strwythur newydd aros o fewn £71.1 miliwn. Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gwneud sylwadau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

3.16 Cyflwynwyd adroddiad ar yr amcangyfrif cyllideb ddiwygiedig ar gyfer costau trosiannol Rhaglen Newid Strwythurol GIG Cymru ar gyfer y cyfnod pedair blynedd hyd at 31 Mawrth 2005 i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2003. Ac eithrio arian trosiannol ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, adolygwyd ystod cyllideb y costau trosiannol o £10.9 miliwn i £14.14 miliwn. Mae'r alldro rhagweledig diweddaraf sydd ar gael, sef £12.57 miliwn, o fewn yr ystod cyllideb gymeradwy.

3.17 Yn ogystal, sefydlwyd y Cynllun Cyflogaeth Estynedig ar 1 Ebrill 2003 er mwyn galluogi GIG Cymru i gadw, am 12 mis arall, y staff cymwys hynny sydd â'r sgiliau a'r profiad pwysig nad oedd wedi cael swyddi sylweddol yn dilyn yr ailstrwythuro. Mae'r Cynllun, a weinyddir gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys, hefyd yn rhoi cymorth i'w helpu i baratoi eu cynlluniau datblygu personol eu hunain a sicrhau swyddi sylweddol mewn mannau eraill. O'r 62 o staff cymwys a ymunodd â'r Cynllun, roedd 33 ohonynt wedi gadael erbyn 31 Rhagfyr 2003 - dadansoddir hyn yn **Nhabl C**.

## B Costau trosiannol rhaglen newid strwythurol GIG Cymru

| | Gwariant ac alldro rhagweledig | | Ystod cyllideb | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwariant hyd at 31 Rhagfyr 2003 £ miliwn | Alldro rhagweledig £ miliwn | Terfyn Is £ miliwn | Terfyn Uwch £ miliwn |
| Rheoli Prosiect | 0.734 | 0.734 | 0.760 | 0.800 |
| Recriwtio | 0.625 | 0.625 | 0.475 | 0.500 |
| Datblygu a Hyfforddiant o fewn y Sefydliad | 0.367 | 0.367 | 0.420 | 0.450 |
| Adeiladau a TG | 1.337 | 2.646 | 2.600 | 2.900 |
| Rhedeg ar Brawf | 0.551 | 0.641 | 0.625 | 0.650 |
| Cynllun Cyflogaeth Estynedig | 2.133 | 6.950 | 5.970 | 8.740 |
| Amrywiol | 0.080 | 0.100 | 0.050 | 0.100 |
| Canolfan Gwasanaethau Busnes[1] | - | - | - | - |
| Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru | - | 0.507 | - | - |
| **Cyfanswm** | **5.827** | **12.570** | **10.900** | **14.140** |

**NODIADAU**

1 Mae arian trosiannol y Ganolfan Gwasanaethau Busnes ar gyfer y dyfodol yn cael ei adolygu.

*Ffynhonnell: Adran GIG Cymru*

## C Cynllun Cyflogaeth Estynedig

| | Nifer o Staff |
|---|---|
| Staff a ymunodd â'r Cynllun | **62** |
| **Ar 31ain Rhagfyr 2003** | |
| Staff a gafodd swyddi y tu allan i'r Cynllun | 18 |
| Staff sydd wedi cyrraedd oedran ymddeol ac felly wedi gadael y Cynllun | 3 |
| Staff sydd wedi gadael y Cynllun oherwydd ymddeoliad cynnar | 3 |
| Staff sydd wedi gadael y Cynllun oherwydd Ymddeoliad ar sail Salwch | 1 |
| Staff ar secondiadau hirdymor | 8 |
| **Nifer y staff sy'n parhau ar y Cynllun ar 31ain Rhagfyr 2003** | **29** |

# Effaith adolygiadau o bwys o fewn y GIG

## Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3.18 Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Derek Wanless ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2003 ac amlygodd yr angen i ailfeddwl yn radical am y modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad nad yw cyfluniad presennol gwasanaethau iechyd yn gynaliadwy, gan roi beichiau na ellir eu cynnal ar y sector aciwt a'i weithlu, yn arbennig oherwydd newidiadau demograffig a phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio. O ganlyniad, mae angen newid sylweddol er mwyn cynyddu adnoddau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a gyflawnir, er enghraifft, drwy gyfrwng gwelliannau i gynhyrchiant, mesurau iechyd cyhoeddus gwell a sicrhau gwerth am arian. Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r Adolygiad (a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd 2003), y byddai'r rhaglen weithredu yn cael ei strwythuro i bedair thema: Atal; Gwella'r Broses o Ddarparu Gwasanaethau i'r Eithaf; Cynnwys Pobl a Phroffesiynau ac Atebolrwydd a Pherfformiad. Mae thema Perfformiad ac Atebolrwydd yn cwmpasu:

- perfformiad, cyffredinoli arfer gorau a mynd i'r afael â gwastraff;
- effeithiolrwydd arweinyddiaeth ac atebolrwydd y sefydliad; ac
- adnoddau yn cynnwys cyllid, cyfalaf a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

3.19 Mewn ymateb i'r Adolygiad, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr GIG Cymru, gyda chyfres o is-grwpiau i ddatblygu'r broses weithredu o dan y pedair thema. Fe'i goruchwylir hefyd gan un o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Cabinet a gadeirir gan y Prif Weinidog. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, dywedodd adroddiad misol y Gweinidog i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Tachwedd 2003 y byddai gofyn i fyrddau iechyd lleol gynhyrchu cynlluniau gweithredu 'Wanless' lleol. Dylid cyflwyno'r rhain i Lywodraeth Cynulliad Cymru erbyn 30 Ebrill 2004.

3.20 Ceir argymhellion eang eu cwmpas yn yr Adolygiad sy'n cynnwys ymdrin â'r pwysau ar y sector aciwt, gwneud defnydd mwy effeithiol o ysbytai cymunedol, canolbwyntio ac atal, a buddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd £30 miliwn o arian ymroddedig yn 2004-2005 er mwyn datblygu ymateb y Cynulliad i'r Adolygiad. Bwriad hyn yw hybu annibyniaeth; gwasanaethau gofal canolraddol; cynorthwyo pobl gartref yn y gymuned; atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi; cyflymu gadael ysbyty a lleihau'r pwysau ar y sector aciwt. Yn ogystal, darparwyd £16 miliwn i weithredu'r fenter wybodaeth "Hysbysu Gofal Iechyd", a ystyrir yn sylfaen o bwys ar gyfer llunio'r broses o ddarparu gwasanaethau a'u perfformiad.

3.21 Mae Adran Gyllid GIG Cymru hefyd wedi sefydlu'r Bwrdd Strategaeth Gwybodaeth Ariannol mewn ymateb i'r Adolygiad a'r adroddiad a gyhoeddwyd gan dîm ymchwil Townsend, 'Targedu Iechyd Gwael'. Prif amcan y Bwrdd yw asesu canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiadau annibynnol hyn a nodi fframwaith i wella ansawdd gwybodaeth er mwyn ategu'r broses cynllunio gwasanaeth strategol ar lefel genedlaethol a lleol, ac wrth asesu perfformiad y GIG a Gofal Cymdeithasol.

3.22 Bydd y strategaeth gwybodaeth ariannol newydd yn gweithredu menter gyllidebu rhaglen a fydd yn mapio gwariant GIG i 23 o gyflyrau meddygol a fydd yn galluogi meincnodi gyda Lloegr. Bydd hyn yn ategu gwybodaeth a ymgorfforir ar hyn o bryd yn yr arweiniad "Gweithgarwch a Chostau mewn Ysbytai yng Nghymru" ("Y Llyfr Coch"). Yn ogystal â chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, bydd gwybodaeth cyllidebu rhaglen yn ategu prosesau rheoli perfformiad ffurfiol.

## Adolygiad o Reolaethau Mewnol yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes

3.23 Comisiynodd Cyfarwyddwr Cyllid GIG Cymru Atos KPMG Consulting i adolygu'r rheolaethau mewnol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth drafft a threfniadau sefydliadol yn y strwythur newydd ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau Busnes. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2003. Er y daeth i'r casgliad bod y systemau rheolaeth mewnol yn ddigonol, amlygodd nifer o feysydd a oedd yn achosi pryder, a dderbyniwyd gan reolwyr lleol. Crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- pryderon ynghylch digonolrwydd y trefniadau staffio yn swyddfeydd Canolfan Gwasanaethau Busnes Pont-y-pŵl ac Abertawe er mwyn cyflwyno cyfrifon y bwrdd iechyd lleol yn unol â'r safonau a'r terfynau amser cytûn;
- gallai'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth drafft sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ganolbwyntio mwy ar fesur perfformiad a sôn amdano'n fwy penodol; ac
- mae angen gwelliannau gweithredol er mwyn ymdrin â'r ffaith nad yw rheolaethau a chysoniadau yn amlwg, a bod diffyg eglurder mewn swyddogaethau cyfrifo rheolwyr yn y byrddau iechyd lleol a'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn arwain at ddyblygu gwaith wrth gynhyrchu adroddiadau ariannol.

## Adolygu Prosesau Ad-drefnu

3.24 Gan wybod y byddai'r pum awdurdod iechyd yng Nghymru yn cael eu diddymu o 31 Mawrth 2003 ymlaen, dywedodd y Comisiwn Archwilio wrthyf bod yr archwilwyr penodedig hefyd wedi parhau i fonitro'r trefniadau i reoli'r newid i'r strwythurau sefydliadol newydd. Canolbwyntiodd adolygiadau ar feysydd megis cynllunio prosiectau; cyfathrebu; rheolaeth a rheolaeth ariannol; staffio, diswyddo ac ailgyflogi; rheoli perfformiad a chyllidebau ar gyfer 2003-2004; eiddo, asedau, ymrwymiadau a rhwymedigaethau; partneriaethau; gwasanaethau a rennir, ac Adroddiad Caldicott (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1997) ar ddiogelu gwybodaeth am gleifion o fewn y GIG. Roedd eu canfyddiadau, a gwblhawyd yn gynharach yn y flwyddyn, yn gyson ag adolygiad dilynol Atos KPMG ac yn ategu gwaith yr ymgynghorwyr. Mae mater arall sy'n achosi pryder a godwyd gan yr archwilwyr yn ymwneud â'r oedi o ran dadagregu balansau awdurdodau iechyd. Dylai'r broses o drosglwyddo asedau a rhwymedigaethau awdurdodau iechyd i'r cyrff olynol fod wedi ei chwblhau pan ardystiwyd cyfrifon awdurdodau iechyd ym mis Medi 2003. Cyhoeddwyd arweiniad cychwynnol Adran GIG Cymru ar y broses ddadagregu ym mis Awst 2003 gydag arweiniad atodol, er mwyn ymdrin â materion penodol sy'n deillio o'r broses ddadagregu, a gyhoeddwyd ddechrau mis Rhagfyr 2003. Ni chwblhawyd y broses ddadagregu tan fis Ionawr 2004 yn bennaf oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a'r angen i egluro balansau mewn ymateb i ymholiadau gan gyrff olynol. Dywedodd y Comisiwn Archwilio wrthyf bod yr archwilwyr penodedig yn bwriadu cwblhau eu harchwiliadau o atodlenni asedau a rhwymedigaethau sy'n trosglwyddo i'w cyrff olynol erbyn 31 Mawrth 2004.

# 4 Heriau sy'n wynebu GIG Cymru

## Cyflwyniad

4.1 Yn ystod 2002-2003 bu cynnydd sylweddol wrth weithredu Cynllun y GIG "Gwella Iechyd yng Nghymru". Wrth bennu ei blaenoriaethau cyllideb ar gyfer 2003-2004 cydnabu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr heriau o bwys a'r dewisiadau anodd ynghylch blaenoriaethau a'r modd y defnyddir adnoddau presennol. Gwella iechyd a safonau gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yw'r her allweddol o hyd. O fewn y cyd-destun hwn, mae fy adroddiad yn archwilio rhywfaint o'r pwysau, yn ychwanegol at y materion ailstrwythuro a nodwyd yn Rhan 3, a wynebir gan GIG Cymru o ran cyflawni ei dargedau yn effeithiol:

- rheolaeth gorfforaethol (paragraffau 4.2 i 4.8);
- materion sy'n dellio o'r cyfrifon creiddiol (paragraffau 4.9 i 4.16);
- Cronfa Risg Cymru (paragraffau 4.17 i 4.19);
- y Fenter Cyllid Preifat o fewn GIG Cymru (paragraff 4.20); a
- y newyddion diweddaraf am Atal Twyll yn y GIG a rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru o ran atal twyll (paragraffau 4.21 i 4.31).

## Rheolaeth Gorfforaethol

### Safonau Rheoli Risg Cymru

4.2 Mae'n ofynnol i bob corff GIG gynnal hunan-asesiad blynyddol yn erbyn y safonau, sy'n cwmpasu risgiau clinigol ac anghlinigol, fel rhan o broses adolygu barhaus. Cyflwynir canlyniadau yr ymarfer hwn ynghyd â chynllun gweithredu sy'n nodi'r rhaglen waith arfaethedig i symud eu sefydliad tuag at lefelau cydymffurfio uwch i'r Cynulliad. Mae Cronfa Rheoli Risg Cymru yn asesu'r safonau hynny a ystyrir yn flaenoriaeth uchel yn annibynnol.

4.3 Ar gyfer 2002-2003, ceir tua 38 o Safonau Rheoli Risg Cymru sy'n gymwys i bob ymddiriedolaeth yng Nghymru, er nad yw pob un yn berthnasol i bob corff unigol. Yn ogystal, datblygwyd pum Safon Rheoli Risg Cymru craidd ar gyfer 2003-2004 ac fe'i dosbarthwyd i fyrddau iechyd lleol ar gyfer hunan-asesu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae safonau pellach yn cael eu datblygu a chânt eu dosbarthu i fyrddau iechyd lleol fesul cam yn y dyfodol. Bwriedir cyflwyno'r hunan-asesiad cyntaf ar gyfer mis Awst 2004.

### Datganiad ar Reolaeth Fewnol

4.4 Mae'n ofynnol i bob corff GIG gyflwyno Datganiad ar Reolaeth Fewnol fel rhan o'u datganiadau ariannol blynyddol. Llofnodir y Datganiad gan y Swyddog Cyfrifo ar ran Bwrdd bob corff GIG. Fel rhan o'u cyfrifoldebau rheoli gorfodol, mae'n ofynnol i bob bwrdd gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu systemau rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn. Fe'i seilir gan gydymffurfiaeth â'r Safonau Rheoli Risg Cymru hynny a gaiff eu hystyried yn greiddiol i'r broses o reoli risgiau:

- Polisi a Strategaeth Rheoli Risg
- Proffil Risg
- Cofnodi Digwyddiadau Andwyol a Pheryglon
- Rheolaeth
- Rheolaeth Ariannol

Cyflwynwyd safonau rheolaeth a rheolaeth ariannol ar gyfer 2002-2003. Ystyrir bod cydymffurfiaeth os cyflawnwyd 75% ar gyfer pob safon craidd.

4.5 Mae'r archwilwyr penodedig yn adolygu'r Datganiad o Reolaeth Fewnol a sicrhau ei fod yn gyson â Datganiad y Cyfarwyddwr. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer 2002-2003, gyda ffigurau cymharol ar gyfer 2001-2002 mewn cromfachau, yn **Nhabl D** fel a ganlyn:-

## D Crynodeb o'r Adolygiad o'r Datganiad o Reolaeth Fewnol

| | Cydymffurfiaeth lawn | Cydymffurfiaeth rannol |
|---|---|---|
| Awdurdodau Iechyd | 1 (1) | 4 (4) |
| Ymddiriedolaethau GIG | 7 (4) | 8 (11) |

**NODYN**

Nododd pedwar awdurdod iechyd nad oedd y system reolaeth fewnol wedi ei hymgorffori'n llawn erbyn 31 Mawrth 2003, ond dim ond un, sef Iechyd Morgannwg, a nododd yn ffurfiol mai dim ond cydymffurfio'n rhannol oedd y datganiad.

*Ffynhonnell: Comisiwn Archwilio yng Nghymru*

4.6 Yn 2002-2003, cydymffurfiodd saith allan o 15 Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn llawn yn erbyn y pum safon craidd. Allan o'r wyth nad oedd yn gallu diwallu gofynion y safonau craidd, dynododd pump bod ganddynt ragor o waith i'w wneud o hyd y tu allan i'r meysydd a gwmpaswyd gan y safonau rheoli risg craidd er mwyn cyflawni prosesau rheolaeth fewnol cynhwysfawr erbyn 2003-2004 a dywedodd dau mai 2004-2005 oedd eu targed ar gyfer cyflawni prosesau rheoli mewnol cynhwysfawr. Roedd yn ofynnol i Brif Weithredwyr yr awdurdodau iechyd oedd yn dod i ben lofnodi Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar gyfer 2002-2003 a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer sefydliadau sy'n dod i ben. Cyhoeddwyd arweiniad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt sicrhau bod yrff olynol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r prif risgiau a oedd yn berthnasol i swyddogaethau'r byrddau iechyd lleol newydd.

4.7 Ymestynnodd arweiniad newydd a gyhoeddwyd gan y Trysorlys yn 2003 y dyddiad cau er mwyn i bob corff cyhoeddus gydymffurfio'n llawn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2003-2004. Diwygiodd ffurf y Datganiad ar Reolaeth Fewnol hefyd, a'r bwriad yw alinio'r broses sy'n sail i'r Datganiad mor agos â phosibl gyda gwaith adroddiad yr Uned Strategaeth: "Risg: Gwella gallu'r llywodraeth i ymdrin â risg ac ansicrwydd". Mae'r ffurf ddiwygiedig yn annog cyrff GIG i deilwra eu datganiad i'w hamgylchiadau eu hunain.

4.8 Dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthyf ei fod wedi cynnig cymorth gyda'r bwriad o sicrhau y cyflawnir y dyddiad targed gan bob corff GIG. Cytunwyd ar raglen waith y tu hwnt i fis Mawrth 2004 gydag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe - yr unig gorff a ddynododd y byddai'n cael anhawster cyflawni'r targedau. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda Chronfa Risg Cymru er mwyn datblygu ei system rheoli risg.

## Materion sy'n deillio o'r Cyfrifon Creiddiol

### Costau Nyrsys Asiantaeth

4.9 Fel mewn adroddiadau blaenorol, tynnaf sylw at gost sylweddol nyrsys asiantaeth. Mae cost defnyddio staff nyrsio asiantaeth yng Nghymru yn parhau i gynyddu'n sylweddol bob blwyddyn: £18 miliwn yn ystod 2002-2003 (2001-2002 £15 miliwn, 2000-2001 £10 miliwn, a 1999-2000 £8 miliwn). Mae hyn yn cynrychioli tua 1 y cant o gyfanswm bil y GIG. Bu Is-adran Rheoli Perfformiad Adran GIG Cymru yn monitro gwariant ar asiantaethau ers peth amser a bu hefyd yn cydweithio'n agos ag Ymddiriedolaethau GIG i benderfynu ar ffyrdd i leihau'r gwariant. Yn nodedig, mae Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n gyfrifol am 44 y cant o'r costau nyrsio asiantaeth, bellach wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio staff heb gymwysterau (gweithwyr cymorth gofal iechyd) a geir o asiantaethau.

4.10 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu nifer o fentrau ers cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Archwilio "Brief Encounters from Temporary Nursing Staff" ym mis Medi 2001 gan gynnwys:

- **Cynllunio'r Gweithlu** - cynnydd yn nifer y myfyrwyr a anelir at leihau nifer y swyddi gwag presennol a'r angen i recriwtio staff o asiantaethau yn yr hirdymor. Fodd bynnag, bydd yn cymryd tair blynedd i fod o fantais i'r gwasanaeth.
- **Nyrsio** - bydd 4,300 o nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn cwblhau eu hyfforddiant erbyn 2004. Mae rhaglenni nyrsio rhan amser yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch, er mwyn cynyddu cyfleoedd i weithwyr cymorth gofal iechyd hyfforddi fel nyrsys. Dechreuodd y rhaglen gyntaf o'r fath ym mis Medi 2002 yng Ngogledd Cymru, ac mae un arall ar fin cychwyn yn Ne Cymru ym mis Medi 2004. Cwblhawyd cynnig "Contract Asiantaeth Cymru Gyfan' a bwriedir ymgynghori arno yn y dyfodol agos gyda'r bwriad o'i weithredu ar ddechrau 2004.
- **Ymweliadau Tîm Arfer Da Adnoddau Dynol** - a anelir at nodi enghreifftiau o arfer da a'i rannu ledled Cymru.
- **Menter Dychwelyd i Weithio** - cymhellion a chymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant ychwanegol er mwyn i nyrsys a bydwragedd ddychwelyd i'r proffesiwn.

Yn ogystal, datblygodd bob ymddiriedolaeth strategaethau Recriwtio a Chadw, a gaiff eu gweithredu yn 2003 2004. Mae rhai ymddiriedolaethau wedi cyflwyno contractau cyflogaeth yn seiliedig ar nifer yr oriau a weithiwyd bob blwyddyn yn unig er mwyn darparu trefniadau gwaith i gydweddu ag anghenion unigolyn. Mae mentrau eraill yn cynnwys darparu cyfleusterau meithrinfa a chynlluniau talebau gofal plant i gynorthwyo ymagwedd hyblyg tuag at drefniadau gwaith. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn pennu targedau ar gyfer lleihau'r defnydd o nyrsys asiantaeth.

## Costau Ymddeol yn Gynnar Oherwydd Salwch

4.11 Cadarnhaodd Adran GIG Cymru y cytunwyd ar becynnau ymddeol yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2002 a bod costau ar gyfer taliadau diswyddo yn parhau i gael eu monitro'n agos. Roedd costau ymddeol yn gynnar yn sylweddol unwaith eto. Yn ystod 2002-2003 roedd 299 o ymddeoliadau cynnar ar draws ymddiriedolaethau GIG a arweiniodd at gostau pensiwn ychwanegol o £14.3 miliwn (2001-2002 286 o achosion yn costio £11.8 miliwn). Y gost fesul person ar gyfartaledd yn 2001-2002 oedd £47,742 o gymharu â £42,000 yn 2001-2002. Roedd 12 ymddeoliad cynnar ar sail salwch o'r awdurdodau iechyd a'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol gan arwain at gostau pensiwn ychwanegol o £1,007,886 h.y. cost ychwanegol o £83,990 ar gyfartaledd fesul achos.

4.12 Ar 31 Rhagfyr 2003 dim ond un unigolyn ar y cynllun cyflogaeth estynedig a oedd wedi ymddeol ar sail salwch fel y manylir yn Nhabl C.

## Rhwymedigaethau wrth gefn

4.13 Mae **Tabl E** yn dangos rhwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2003. Mae'r rhain yn cynrychioli oblygiadau posibl na ellir, o ran eu natur, eu mesur gyda sicrwydd rhesymol, ac na wnaed darpariaeth ar eu cyfer yn y cyfrifon cryno.

**E** Rhwymedigaethau wrth gefn GIG Cymru ar 31 Mawrth 2003

| | Awdurdodau iechyd £ miliwn | Ymddiriedolaethau GIG £ miliwn | Cyfanswm £ miliwn | Cyfanswm 2002 £ miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Hawliadau cyfreithiol | 112.2 | 157.7 | 269.9 | 254.0 |
| Gofal Parhaus | 10.1 | - | 10.1 | - |
| Arall | 2.3 | - | 2.3 | - |
| **Cyfanswm** | **124.6** | **157.7** | **282.3** | **254.0** |

*Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno GIG (Cymru) 2001-2002 a 2002-2003*

## Esgeulustod Clinigol

4.14 Ar 31 Mawrth 2003, £155.7 miliwn oedd y rhwymedigaethau ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol a gynhwyswyd ar fantolenni cyrff GIG (31 Mawrth 2002 £118 miliwn). Mae £269.9 miliwn amcangyfrifedig o'r hawliadau y mae dadl yn eu cylch am esgeulustod gan gyflogwyr neu esgeulustod meddygol honedig, lle mae'r tebygolrwydd o dalu yn "bosibl" yn hytrach na "thebygol" wedi eu heithrio o'r darpariaethau hyn, ac wedi eu datgelu fel rhwymedigaethau wrth gefn.

## Gofal Parhaus

4.15 Gorchmynnodd Adran GIG Cymru awdurdodau iechyd i gael polisïau cytûn ar waith ar gyfer darparu Gofal Iechyd GIG parhaus o 1 Ebrill 1996 ymlaen. Daeth adroddiad yr Ombwsdmon Gwasanaethau Iechyd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2003 i'r casgliad na fu awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd yn cymhwyso yn gywir arweiniad Adrannol na dyfarniad allweddol gan y Llys Apêl yn 1999 (dyfarniad Coughlan) i benderfynu p'un a oedd pobl yn gymwys i gael arian GIG er mwyn derbyn gofal mewn cartrefi nyrsio. Er mai yn Lloegr y bu pob achos a ystyriwyd hyd yma gan yr Ombwdsmon, ac roedd cyfarwyddiadau'r adroddiad wedi eu cyfeirio at awdurdodau iechyd strategol ac Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr, mae'r sefyllfa gyfreithiol ar Ofal Iechyd GIG Parhaus yr un fath yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2003 roedd cyfrifon awdurdodau iechyd Cymru yn cynnwys rhwymedigaeth wrth gefn o £10.1 miliwn ar gyfer gofal parhaus. Mae'n amcangyfrif ceidwadol yn seiliedig ar y lefel bosibl o hawliadau a chost gofal nyrsio ar gyfartaledd ers 1996.

4.16 Nid yw cost goblygiadau adroddiad yr Ombwdsmon yn diweddu o ran gwneud iawn am anghyfiawnderau yn y gorffennol. Ers dyfarniad Coughlan, bu'n rhaid i awdurdodau iechyd, a byrddau iechyd lleol wedyn, newid y sail y dyfernir cymhwysedd ar gyfer Gofal Iechyd GIG Parhaus. O ganlyniad, asesir bod nifer gynyddol o bobl yn gymwys, gydag effaith sylweddol ar gyllidebau gofal parhaus yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Gallai potensial gwireddu'r hawliadau hyn osod cyfyngiadau ariannol pellach ar y GIG yng Nghymru.

## Cronfa Risg Cymru

4.17 Yn fy adroddiad 2003 ar Gyllidebau GIG Cymru, cyfeiriais at y cynnydd cyflym mewn taliadau ad-dalu hawliadau o £49 miliwn a wnaed yn ystod 2001-2002 nas rhagwelwyd gan Gronfa Risg Cymru wrth bennu ei lefelau premiwm ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. O ganlyniad, bu'n rhaid i'r Gronfa gasglu £20 miliwn arall o gyfraniadau premiwm yn y flwyddyn honno er mwyn ariannu cyfanswm ei daliadau ad-dalu.

4.18 Yn dilyn hyn, cymerwyd nifer o gamau gan Gronfa Risg Cymru i atgyfnerthu eu trefniadau rheoli ariannol. Comisiynodd Cyfarwyddwr GIG Cymru adolygiad asiantaeth o Gronfa Risg Cymru hefyd er mwyn nodi mesurau pellach i atgyfnerthu a sicrhau cost-effeithlonrwydd y trefniadau rheoli ar gyfer esgeulustod clinigol a hawliadau eraill a ariennir gan y gronfa. Cymeradwyodd Gweinidogion yr adroddiad terfynol a'r argymhellion ym mis Ebrill 2003. Mae'r argymhellion hynny, a fwriedwyd i wella'r broses o fonitro a rhagweld gweithdrefnau a weithredir gan y Gronfa ac yn cynnwys y defnydd o gyngor actiwari ar ofynion cyllidebu a gosod premiwm, wedi eu gweithredu bellach. Cyflwynwyd gwell drefniadau atebolrwydd a goruchwylio hefyd gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych, sef yr ymddiriedolaeth sy'n ei gynnal. Mae cynigion hirdymor eraill yn y broses o gael eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau i gyfyngu ar amlygu ymddiriedolaethau unigol rhag aml-hawliadau sy'n deillio o achos cyffredin a'r Gronfa i hawliadau mawr o bosibl, er enghraifft, risgiau eiddo.

4.19 Yn 2002-2003, mae'r trefniadau diwygiedig hyn wedi helpu i sicrhau bod gwariant y Gronfa o £43 miliwn yn dilyn setlo 246 o achosion o hawliadau esgeulustod clinigol ac anaf personol wedi eu talu o fewn y gyllideb heb fod angen codi premiymau ychwanegol. Yn nodedig, roedd cyfanswm o 45 o achosion yn fwy na £100,000 gyda setliad ar gyfartaledd o £527,000.

## Y Fenter Cyllid Preifat o fewn GIG Cymru

4.20 Roedd cyfrifon cryno ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar gyfer 2002-2003 yn cynnwys saith ymddiriedolaeth a ddatgelai 13 o drafodion Menter Cyllid Preifat ar wahân. Roedd un cynllun ychwanegol yn 2002-2003 sy'n ymwneud â chynllun ynni â lleiafswm o fuddsoddiad cyfalaf i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg. £114.3 miliwn yw'r gwerth cyfalaf amcangyfrifiedig sy'n cwmpasu'r 13 o drafodion Menter Cyllid Preifat ar wahân: rhoddir cyfrif am un cynllun ar y fantolen (£2.7 miliwn) ac nid yw deuddeg yn ymddangos ar y fantolen (£111.6 miliwn). £11.4 miliwn oedd y gwariant gweithredol cysylltiedig ar gyfer 2002-2003 (2001-2002 £5.3 miliwn). Mae ymddiriedolaethau yn ymrwymedig i dalu taliadau blynyddol gwerth £18.5 miliwn o dan y cynlluniau hyn.

## Newyddion diweddaraf am dwyll yn y GIG

4.21 Yn fy adroddiad ar Gyllidau GIG Cymru 2003, gwneuthum sylwadau ar fwriad Llywodraeth y Cynulliad i leihau twyll i'r lleiafswm absoliwt yn barhaol, a chynnal y lefel honno, a'r camau a gymerwyd i sefydlu strwythur effeithiol i atal twyll yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu tîm Gwasanaeth Atal Twyll GIG (Cymru) a phenodi Arbenigwyr Atal Twyll lleol mewn ymddiriedolaethau GIG a chyrff iechyd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch a'r Timau Fferyllol, Rhagweithiol Cenedlaethol a Thwyll Deintyddol hefyd yn darparu gwasanaethau i gyrff iechyd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gan GIG Cymru ddau ar hugain o Arbenigwyr Atal Twyll lleol (pedwar ar bymtheg yn 2001-2002). Enwebwyd chwech Arbenigwr Atal Twyll Lleol arall gan gyrff iechyd ac maent yn aros i gael eu hyfforddi a'u hachredu.

4.22 Nododd fy adroddiad diwethaf fod gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch GIG wedi amcangyfrif bod y swm a gollwyd o ganlyniad i dwyll fferyllol yng Nghymru wedi lleihau o £15 miliwn i £7 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2001-2002. Roedd hyn yn gyson â'r sefyllfa a oedd yn gwella yn Lloegr lle roedd y twyll presgripsiwn amcangyfrifiedig wedi lleihau o £117 miliwn y flwyddyn i £47 miliwn y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch wedi cwblhau ail ymarfer mesur ar y swm o incwm amcangyfrifiedig o ganlyniad i dwyll Cleifion a Chontractwyr Optegol yng Nghymru. Daeth yr ymarfer i'r casgliad bod lefel y twyll optegol wedi lleihau o £1.2 miliwn y flwyddyn i £0.9 miliwn y flwyddyn. Bydd yr Uned Ymchwilio Mesur Risgiau y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch yn cynnal ymarfer i amcangyfrif lefel y twyll cleifion a chontractwyr deintyddol yng nghanol 2004.

4.23 Mae trefniadau i alluogi'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol i gynnal gwiriadau dilysu ar gyfer cleifion sy'n hawlio eithriad neu ryddhad o ffioedd deintyddol a gweithredu ffioedd cosb yng Nghymru yn cael eu datblygu. Bydd Gorchymyn Cychwyn i'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (Gofal Sylfaenol) 1997 i benodi'r Bwrdd Arfer Deintyddol fel "corff gwasanaeth iechyd" drwy ddiwygio Deddf GIG 1997 yn dod i rym o 1 Ebrill 2004 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Arfer Deintyddol i gael ei gyfarwyddo i gynnal y swyddogaeth hon yng Nghymru.

4.24 Mae'r Uned Ddilysu Ôl-Daliadau (rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre) yn gyfrifol am ymchwilio i geisiadau am eithriad rhag ffioedd presgripsiwn perthnasol, y broses o adfer ffioedd o'r fath, a chodi ffioedd cosb a gordaliadau eraill fel y bo'n briodol. Rhwng mis Hydref 2002 a mis Rhagfyr 2003, gwiriodd yr Uned tua 350,000 o sgriptiau, a arweiniodd at anfon 12,000 o lythyrau cychwynnol i gleifion yn gofyn am brawf o'r eithriad neu daliad am eu presgripsiwn. Yn sgîl hyn, anfonwyd 3,000 o lythyrau ffioedd cosb a 1,800 o lythyrau gordaliad. Cyfanswm yr incwm a adferwyd o'r llythyrau cychwynnol yw £31,000 ac mae £34,000 pellach yn cael ei adfer mewn cosbau a gordaliadau.

4.25 Ers dod yn weithredol ym mis Awst 2001, mae Gwasanaeth Atal Twyll GIG (Cymru) wedi derbyn 37 atgyfeiriad o dwyll honedig. Erbyn 31 Rhagfyr 2003, cwblhaodd y tîm ddeunaw o ymchwiliadau gan arwain at adfer £233,402. Mae'r 19 achos sy'n weddill, y mae ymchwiliadau yn parhau iddynt, yn cynnwys tua £550,000. Mae'r Arbenigwyr Atal Twyll lleol yn gyffredinol yn ymchwilio i achosion lle mae'r golled amcangyfrifiedig bosibl yn llai na £15,000 ac yn gweithredu fel rhwystr i dwyll posibl. Yn ystod y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2003, roeddent wedi derbyn 150 o atgyfeiriadau achos. Cwblhawyd 40 o'r rhain ac adferwyd £122,173 o ganlyniad.

4.26 Mae'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch yn parhau i wneud cyfraniad allweddol i'r broses o nodi, ymchwilio ac atal twyll. Mae datblygiadau pwysig yn cynnwys:

- Siarter Atal Twyll gydag Unsain, sy'n ymrwymo dros 30,000 o Staff GIG yng Nghymru i gydweithio â Gwasanaeth Atal Twyll GIG ar gamau ymarferol i atal twyll a llygredd o fewn GIG Cymru;
- cyfres o ymarferion rhagweithiol cenedlaethol yn GIG Cymru gyda'r bwriad o ddatgelu ac atal twyll gan staff asiantaeth a chronfa GIG, ac amlygu gwendidau mewn systemau a pholisïau sy'n galluogi'r twyll hwn i ddigwydd. Dywedodd y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch wrthyf ei fod wedi nodi sawl achos o dwyll taflenni amser yn GIG Cymru yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd. Bwriedir cynnal ymarferion rhagweithiol eraill ar gyfer 2004;
- datganiad polisi ar roi sancsiynau ar waith mewn perthynas â thwyll a llygredd yn y GIG i atal twyll, gan gynnwys sancsiynau troseddol, sifil, disgyblu neu gyflogaeth;
- cynhaliwyd diwrnodau codi ymwybyddiaeth o dwyll mewn 16 o leoliadau mewn ysbytai aciwt o bwys yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth gyffredinol o strategaeth atal twyll GIG ac egluro i staff GIG beth yw eu rôl o ran mynd i'r afael â thwyll a llygredd. Bu cynnydd hefyd yn y galwadau i Linell Cofnodi Twyll a Llygredd GIG, a derbyniwyd cyfanswm o 36 o alwadau yn cofnodi amheuaeth o dwyll yn GIG Cymru hyd yma;
- cyflwyniadau rheolaidd i staff ar draws GIG Cymru gan gynnwys diwrnodau sefydlu, diwrnodau hyfforddi i staff a rheolwyr, a sesiynau briffio i gyrff proffesiynol a phwyllgorau archwilio. Cynhaliodd Gwasanaeth Atal Twyll GIG (Cymru) gyfanswm o 64 o gyflwyniadau erbyn diwedd 2003; a
- parhau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd sy'n sicrhau y cynhelir yr holl waith atal twyll i safon uchel ac y cynhelir y safonau yng Nghymru. Cwblhawyd adolygiadau Sicrwydd Ansawdd yn Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn ystod 2002 a ddangosai ymrwymiad cryf i waith atal twyll, er y nodwyd bod lle i wneud rhai gwelliannau, ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu. Yn ogystal, cwblhawyd Adolygiadau Sicrwydd Ansawdd yn Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru yn 2003 a chyhoeddir canlyniadau'r adolygiadau ddechrau 2004.

## Rôl y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrth geisio Atal Twyll

4.27 Diogelu arian cyhoeddus yw conglfaen busnes sector cyhoeddus ac mae archwilwyr penodedig pob corff GIG yng Nghymru yn ystyried p'un a oes trefniadau digonol gan bob corff i gynnal safonau ymddygiad ariannol priodol ac er mwyn atal a chanfod colledion drwy dwyll a llygredd. Dywedodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru wrthyf fod archwilwyr penodedig cyrff GIG wedi cofnodi bod rôl Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn cael ei chryfhau ar draws y GIG yng Nghymru. Yn ogystal, dywedodd archwilwyr penodedig fod cyrff GIG yn rhoi pwyslais cynyddol ar ddatblygu diwylliant gwrth-dwyll.

4.28 Cadarnhaodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru bod archwilwyr penodedig wedi canolbwyntio'n gryf ar waith gwrth-dwyll yn ystod y flwyddyn unwaith eto. Yn ogystal ag archwilio'r trefniadau cyffredinol ar gyfer datblygu diwylliant gwrth-dwyll, cynhaliodd archwilwyr penodedig waith mewn meysydd penodol megis camddefnydd posibl o'r rhyngrwyd, rhoddion, lletygarwch, datganiad o fuddiant a gweithdrefnau gwrth-dwyll a llygredd. Yn 2002-2003 parhaodd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, ar y cyd â Gwasanaeth Atal Twyll GIG (Cymru) a'r heddlu, i gynorthwyo'r pum awdurdod iechyd o ran mynd i'r afael â thwyll offthalmoleg. Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar atal a chanfod ceisiadau amhriodol gan optegwyr. Yn ogystal â'r gwaith hwn, ym mis Chwefror 2003, ymrwymodd un optegydd i ad-dalu £120,000 ac ymrwymodd ail optegydd i gytundeb llys sirol i ad-dalu swm cychwynnol o £72,500 gyda swm pellach o £190,000 i'w ystyried mewn gwrandawiad llys yn y dyfodol. Mae achosion pellach yn parhau.

4.29 Mae Deddf Datgelu Er Budd y Cyhoedd yn darparu diogelwch statudol i gyflogeion sector cyhoeddus, gan gynnwys staff GIG, sy'n 'datgelu cyfrinachau' ar dwyll a llygredd sy'n digwydd yn y cyrff sy'n eu cyflogi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Comisiwn Archwilio, fel 'person enwebedig' o dan y Ddeddf, wedi derbyn nifer o achosion Datgelu Er Budd y Cyhoedd sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ym mhob achos, gofynnwyd i'r archwilwyr penodedig ymchwilio i'r datgeliadau a wnaed. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o'r fath yn gysylltiedig â chyrff GIG yng Nghymru yn 2002-2003.

4.30 Fel rhan o'u gwaith, mae archwilwyr penodedig yn ystyried cyfreithlondeb y camau a gymerwyd gan gyrff GIG. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff materion eu datrys drwy drafodaeth, gan arwain mewn rhai achosion at gamau gan y corff i sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn y pwerau sydd ar gael iddo. Yn achlysurol, bydd archwilwyr penodedig yn dod i'r casgliad y bydd angen gwneud atgyfeiriad i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd archwilwyr penodedig yn penderfynu ei fod er budd y cyhoedd i ryddhau canlyniadau eu gwaith i'r cyhoedd. Ni ryddhawyd unrhyw adroddiadau o'r fath yn ystod 2002-2003.

4.31 Mae dyletswydd ar archwilwyr hefyd i atgyfeirio mater i Lywodraeth Cynulliad Cymru os bydd ganddynt reswm i gredu bod corff GIG wedi gwneud penderfyniad sy'n cynnwys neu a allai gynnwys gwariant anghyfreithlon. Unwaith eto, ni wnaed unrhyw atgyfeiriadau o'r fath yn ystod 2002-2003.

# Atodiad 1 - Datganiad o asedau a rhwymedigaethau net a drosglwyddwyd o awdurdodau iechyd ar 1 Ebrill 2003

| | AI Dyfed Powys<br>£'000 | AI Iechyd Morgannwg<br>£'000 | AI Bro Taf<br>£'000 | AI Gwent<br>£'000 | AI Gogledd Cymru<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | | | | | |
| BILl Sir Gaerfyrddin | (2,446) | - | - | - | - | (2,446) |
| BILl Ceredigion | (999) | - | - | - | - | (999) |
| BILl Sir Benfro | (2,195) | - | - | - | - | (2,195) |
| BILl Powys | 6,295 | (507) | 30,903 | 41,195 | 41,085 | 118,971 |
| BILl Pen-y-bont ar Ogwr | - | (1,665) | - | - | - | (1,665) |
| BILl Castell Nedd Port Talbot | - | (325) | - | - | - | (325) |
| BILl Abertawe | - | (179) | - | - | - | (179) |
| | **655** | **(2,676)** | **30,903** | **41,195** | **41,085** | **111,162** |
| **De Ddwyrain Cymru** | | | | | | |
| BILl Caerdydd | - | - | (8,745) | - | - | (8,745) |
| BILl Merthyr Tudful | - | - | (1,687) | - | - | (1,687) |
| BILl Rhondda Cynon Taf | - | - | (3,970) | - | - | (3,970) |
| BILl Bro Morgannwg | - | - | (4,163) | - | - | (4,163) |
| BILl Blaenau Gwent | - | - | - | (2,882) | - | (2,882) |
| BILl Caerffili | - | - | - | (2,687) | - | (2,687) |
| BILl Sir Fynwy | - | - | - | (2,487) | - | (2,487) |
| BILl Casnewydd | - | - | - | (2,834) | - | (2,834) |
| BILl Tor-faen | - | - | - | (2,170) | - | (2,170) |
| | **-** | **-** | **(18,565)** | **(13,060)** | **-** | **(31,625)** |
| **Gogledd Cymru** | | | | | | |
| BILl Conwy | - | - | - | - | (430) | (430) |
| BILl Sir Ddinbych | - | - | - | - | (396) | (396) |
| BILl Sir y Fflint | - | - | - | - | (359) | (359) |
| BILl Gwynedd | - | - | - | - | (163) | (163) |
| BILl Wrecsam | - | - | - | - | (408) | (408) |
| BILl Ynys Môn | - | - | - | - | (198) | (198) |
| | **-** | **-** | **-** | **-** | **(1,954)** | **(1,954)** |
| Comisiwn Iechyd Cymru | (1,115) | (746) | (2,001) | (1,021) | (150) | (5,033) |
| NPHS - Ymddiriedolaeth GIG Felindre | (261) | (289) | (439) | (409) | (92) | (1,490) |
| **Cyfanswm** | **(721)** | **(3,711)** | **9,898** | **26,705** | **38,889** | **71,060** |

**NODYN**

Mae BILl Powys yn cynnwys y Ganolfan Gwasanaethau Busnes a balansau sy'n weddill.

*Ffynhonnell: Adrannau GIG Cymru - nid archwiliwyd y balansau hyd yma*

# Atodiad 2 - Alldro 2003-2004 a ragwelir ar gyfer GIG Cymru

| | **Cyfanswm gwarged/(diffyg) a ragwelir £'000** | ***Cyfanswm gwarged/(diffyg) a ragwelir £'000*** | |
|---|---|---|---|
| | | *Ystod uwch* | *Ystod is* |
| **Rhanbarth De Ddwyrain Cymru** | | | |
| YGIG Caerdydd a'r Fro | (2,507) | *(2,507)* | *(2,507)* |
| YGIG Gogledd Morgannwg | - | - | - |
| YGIG Pontypridd a Rhondda | 300 | *300* | *300* |
| YGIG Felindre | 475 | *475* | *475* |
| BILl Caerdydd | (6,028) | *(6,500)* | *(5,900)* |
| BILl Merthyr Tudful | 138 | - | *238* |
| BILl Rhondda Cynon Taf | 2,000 | *2,000* | *2,550* |
| BILl Bro Morgannwg | (2,301) | *(2,500)* | *(2,200)* |
| YGIG Gofal Iechyd Gwent | - | - | - |
| BILl Blaenau Gwent | (229) | *(379)* | *(79)* |
| BILl Caerffili | (956) | *(956)* | *(685)* |
| BILl Sir Fynwy | (981) | *(981)* | *(753)* |
| BILl Casnewydd | (932) | *(1,052)* | *(784)* |
| BILl Tor-faen | - | *(500)* | *1188* |
| | **(11,021)** | ***(12,600)*** | ***(8,157)*** |
| **Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | | |
| YGIG Sir Gaerfyrddin | (5,127) | *(5,327)* | *(4,927)* |
| YGIG Ceredigion | (892) | *(892)* | *(892)* |
| YGIG Sir Benfro a Derwen | (3,550) | *(3,550)* | *(3,550)* |
| BILL Sir Gaerfyrddin | - | - | - |
| BILl Ceredigion | - | - | - |
| BILl Sir Benfro | 211 | - | *400* |
| BILl Powys | (1,500) | *(1,500)* | *(1,500)* |
| YGIG Bro Morgannwg | - | - | - |
| YGIG Abertawe | - | - | - |
| BILl Pen-y-bont ar Ogwr | - | *(383)* | - |
| BILl Castell Nedd Port Talbot | (104) | *(500)* | *1* |
| BILl Abertawe | - | - | - |
| | **(10,962)** | ***(12,152)*** | ***(10,468)*** |

| | Cyfanswm gwarged/(diffyg) a ragwelir £'000 | *Cyfanswm gwarged/(diffyg) a ragwelir £'000* | |
|---|---|---|---|
| | | *Ystod uwch* | *Ystod is* |
| **Rhanbarth Gogledd Cymru** | | | |
| YGIG Conwy a Sir Ddinbych | (1,000) | *(1,000)* | *(1,000)* |
| YGIG Gogledd Ddwyrain Cymru | - | - | - |
| YGIG Gogledd Orllewin Cymru | 475 | *475* | *475* |
| BILI Conwy | - | - | - |
| BILI Sir Ddinbych | - | *(149)* | - |
| BILI Sir y Fflint | - | *(100)* | - |
| BILI Gwynedd | 115 | - | *521* |
| BILI Wrecsam | 258 | *108* | *408* |
| BILI Ynys Môn | 400 | *100* | *500* |
| | **248** | ***(566)*** | ***904*** |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1,065 | *1,065* | *1,065* |
| **Cyfanswm ar gyfer Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru** | **(20,670)** | ***(24,253)*** | ***(16,656)*** |

*Ffynhonnell: Adran GIG Cymru*

# Atodiad 3 -Perfformiad talu'r sector cyhoeddus 2001-2002 a 2002-2003

| | 2001-2002 | | 2002-2003 | | Mawrth 2003 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth y biliau % | Nifer y biliau % | Gwerth y biliau % | Nifer y biliau % | Gwerth y biliau % | Nifer y biliau % |
| **Awdurdod Iechyd Bro Taf** | 99.0 | 93.8 | 99.9 | 99.0 | 99.9 | 99.2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 69.4 | 62.1 | 85.6 | 83.2 | 94.5 | 94.2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 85.2 | 88.9 | 63.5 | 56.7 | 91.8 | 83.2 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd ar Rhondda | 88.1 | 88.6 | 84.2 | 69.5 | 93.3 | 78.8 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 85.4 | 85.5 | 95.5 | 95.1 | 98.9 | 96.7 |
| **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys** | 99.5 | 97.0 | 97.9 | 94.3 | 95.3 | 94.4 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 83.5 | 65.4 | 82.1 | 69.2 | 83.8 | 88.3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion | 78.5 | 71.5 | 97.2 | 97.6 | 96.5 | 97.1 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 82.9 | 82.6 | 83.2 | 79.7 | 96.0 | 95.9 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | 91.2 | 84.1 | 80.5 | 67.4 | 90.6 | 83.4 |
| **Awdurdod Iechyd Gwent** | 98.7 | 86.6 | 99.7 | 93.8 | 99.9 | 95.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 91.2 | 90.2 | 61.6 | 57.9 | 94.1 | 92.3 |
| **Awdurdod Iechyd Iechyd Morgannwg** | 98.1 | 87.4 | 98.7 | 86.5 | 100.0 | 86.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 84.5 | 85.4 | 84.4 | 86.5 | 94.5 | 91.3 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 92.7 | 88.3 | 96.9 | 93.3 | 97.8 | 96.0 |
| **Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru** | 99.7 | 92.7 | 99.5 | 95.7 | 97.6 | 97.5 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 97.3 | 95.2 | 94.1 | 90.0 | 97.7 | 95.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 94.3 | 92.8 | 85.8 | 86.3 | 91.6 | 87.4 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 89.3 | 87.3 | 96.3 | 95.4 | 97.8 | 97.0 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 89.7 | 81.4 | 94.8 | 93.3 | 95.3 | 95.8 |
| **Pob awdurdod iechyd** | **99.0** | **92.3** | **93.3** | **99.2** | **99.7** | **94.5** |
| **Pob ymddiriedolaeth GIG** | **84.8** | **82.4** | **84.5** | **79.5** | **94.3** | **92.2** |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **95.3** | **83.1** | **95.4** | **85.2** | **97.8** | **92.3** |

*Ffynhonnell: Adran GIG Cymru*